# Y BIGWN

CYF. 34 RHIF 8 Rhagfyr 2022 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Noson cynnau goluadau'r Nadolig




Tu mewn y rhifyn hwn:

Noson dathlu Siop Clwyd

Gŵyl y Ty Gwyrdd

Lansio Nofel Elen Wyn

Y Bws Benthyg

Robert Everett

Ynghyd â'r erthyglau arferol, a'r Croesair a'r Cartŵn wrth gwrs

## Dathlu 50 mlynedd Siop Clwyd



Dathlu Siop Clwyd yn 50deg tud 7

## Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd yn Qatar



Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd yn Qatar tud 4

# Siop Clwyd yn Dathlu 50oed


Ann ac Anwen


Beti a Dilys


Trefor a Dilwyn


Alwena a Dafydd


Berwyn ag Olwen


Gwyneth a Gaynor


Edith ac Aled


Glenys a Gwilym


Gwawr ac Andrew


Rhianwen, Leah ac Eifion


Carys ac Erfyl


Gwerfyl a Nia


Morgan ac Elin


Huw y Cartwnydd


Dyfrig a Kristin

# Gair gan y Golygydd

Does dim diddordeb gen i mewn pêl-droed! Fu dim erioed. Byth wedi maddau i'r sadist o athro ymarfer corff gwrth Gymraeg oedd gennym ni am fod yn gas at Gymry Cymraeg y wlad ac at ninnau hogia'r dre os nad oeddem yn wych am chwaraeon. Dwi hefyd yn meddwl fod chwaraeon tîm cystadleuol yn cael gormod o le yn ein ysgolion o gymharu a gweithgareddau awyr agored ac ati fyddai yn fwy llesol dwi'n siŵr.

Wedi dweud hynny dwi wrthi rŵan yn trio gorffen hwn cyn dechrau gwylio fy nhrydedd gêm pêl-droed mewn ychydig ddyddiau, gêm Cymru v Lloegr yng Nghwpan y Byd. Bydd hynny o leiaf 1 gêm yn fwy na wyliais i drwy gweddill fy mywyd! Adeg yr Ewros yn 2016 a 2020 nes i ddim edrych ar gêm gyfan o gwbl, dim ond ambell i gip ar fy ffôn i weld sut oedd Cymru yn gwneud ac efallai diwedd ambell gêm ar y teledu os nad oedd gen i rhywbeth arall i'w wneud.

Ond mae tro yma wedi bod yn wahanol. Mae'r holl heip wedi effeithio arnaf i. Mae cyfraniad pêl-droed i ddelwedd Cymry a'r Gymraeg ar draws y byd wedi bod yn aruthrol rhwng perchnogion Holywoodaidd tîm Wrecsam a Chymru'n cyrraedd Cwpan y Byd am y tro cyntaf ers degawdau. Mae gennym lawer i ddiolch am waith pobl fel Ian Gwyn Huws ac eraill dros y blynyddoedd i godi proffil y Gymraeg a Chymreictod go iawn o fewn y tîm cenedlaethol.

Ydw i wedi newid fy meddwl am y gêm? Fyddai'n gwylio mwy yn y dyfodol? Na, go brin!

Allai i ddim gorffen heb sôn am y wlad – Qatar. Ni ddylid fod wedi cynnal Cwpan y Byd mewn gwlad efo record hawliau dynol mor erchyll. Peidiwch a thrio dweud y dylid cadw gwleidyddiaeth allan o chwaraeon. Mae gwleidyddiaeth yn rhan o bob agwedd o fywyd ac mae chwaraeon yn cael dylanwad ar wleidyddiaeth. Heb fod gwledydd y byd wedi bocotio chwaraeon gyda De Affrica gallai apartheid fod wedi parhau yn llawer hirach ac efallai y byddai Nelson Mandela wedi marw yn y carchar.

Mae sôn yn y rhifyn hwn am ymweliad Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd a Qatar. Dwi ddim yn beirniadu'r unigolion yn y côr am fanteisio ar y cynnig ond rhaid gofyn a ddylai mudiad fel yr Urdd, sy'n falch o'i gweithgarwch dyngarol, fod wedi cytuno i fynd? Trafodwch!

*Dyfrig Berry*




## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Tachwedd Erfyl Williams**

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Rhagfyr**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn**
**Rhagfyr 16eg**

# Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd yn Qatar

Heb os hon oedd yr wythnos orau erioed. Anrhydedd fel aelod o Aelwyd Dyffryn Clwyd oedd cael gwahoddiad i gynrychioli Cymru a'r Urdd yn Nghwpan y Byd 2022 yn Qatar. Fel aelwyd newydd mae unrhyw gyfle i berfformio yn fraint ond roedd y profiad yma yn un amhrisiadwy. Wedi 24 awr hir o deithio i Qatar doedd dim amser i fwynhau tywydd chwilboeth y Dwyrain Canol. Mentro yn syth i ganu mewn gwesty a oedd yn llawn o gefnogwyr brwd Cymru.

Dydd Llun oedd un o'r uchafbwyntiau i bob un ohonom gan ein bod wedi cael y fraint o ganu yn y 'British Embassy' i lysgenhadon Cymru megis Ian Rush, Bryn Williams, Colin Jackson a Mark Drakeford, y Prif Weinidog i enwi dim ond rhai. Gorffennwyd y diwrnod gyda cyfle arbennig i gyd ganu â neb llai na Dafydd Iwan. Wedi hyn roedd rhaid teithio i'r Amgueddfa Gelfyddyd Islamaidd a chanu eto i'r Prif Weinidog yn ogystal â arweinwyr Qatar cyn mynd ymlaen i'r gêm fawr, Cymru V America. Gêm llawn bwrlwm a chyffro gyda'r stadiwm dan ei sang.

Dinas brydferth, llawn cyfoeth yw Doha. Mae nhw hyd yn oed yn glanhau'r lloriau concrit a mop. Er yr holl rybuddion ar y newyddion nid oedd ein profiad yn amhleserus o gwbl. Cawsom groeso o'r eiliad cyntaf y cyrhaeddom y maes awyr.

Dau ddiwrnod braf o ymlacio a chrwydro y ddinas gan ddysgu mwy am ddiwylliant y wlad ac hefyd y gwledydd eraill a ddaeth i gefnogi eu gwlad. Buom yn dawnsio a chanu ar y strydoedd heb sôn am y Metro. Roedd ein hanes i gyda ar y cyfryngau nid yn unig yma ac yn Lloegr ond ar draws y byd. Aelwyd Dyffryn Clwyd yn rhoi Cymru ar y map.

Dydd Gwener, y diwrnod olaf. Roedd rhaid deffro gyda'r wawr er mwyn paratoi i godi canu wrth het fwced Cymru. Cyd-ganu a Dafydd Iwan a rhai o'r Barry Horns ar y trwmpedau â llond wlad o gefnogwyr wedi dod yno i ymbaratoi cyn y gêm fawr a chyd gerdded i'r Stadiwm yn barod i'r gêm yn erbyn Iran. Canlyniad siomedig ond parhau i ddathlu y bu'r aelwyd cyn teithio am adref nos Wener a bore Sadwrn. Byddwn yn trysori y profiadau yma am byth.

*Martha Cordiner*




*Yn y gêm*



*Rhai aelodau gyda Dafydd Iwan*

Difyrru Darllenwyr Dinbych a'r fro!

Ydych chi yn hoff o adlonni? Beth am yrru unrhyw ddarn o waith creadigol megis darn o farddoniaeth neu ryddiaith er mwyn difyrru darllenwyr Dinbych a'r fro. Gyrrwch eich gwaith i'r e-bost canlynol: gwybod@ybigwn.cymru.




*Aelodau'r Côr gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford*

# Cymdeithas Caledfryn

Dyfrig Hughes Roberts sydd newydd ymddeol fel Arwyddfardd Gorsedd y Beirdd oedd ein gŵr gwadd o Fae Colwyn yng nghyfarfod agoriadol y tymor. Testun ei sgwrs oedd 'Meddygon Esgyrn Môn.'

Mae hanes teulu Meddygon Esgyrn Môn yn dechrau efo trychineb ar y môr a llongddrylliad oddi ar arfordir Llanfair yng Nghornwy yng ngogledd ddwyrain Môn pan achubwyd bachgen bach oedd yn siarad Sbaeneg. Mabwysiadwyd ef gan deulu yn dwyn y cyfenw Thomas. Cymerodd y bachgen yr un cyfenw a dyma pwy oedd **Evan Thomas** (1735-1814), y cyntaf yn y llinach i ymarfer fel meddyg esgyrn. Daeth yn adnabyddus iawn yng Ngogledd Cymru ac fe geir yn Eglwys Llanfair yng Nghornwy dabled coffa yn talu teyrnged iddo am y lles a ddeilliodd trwyddo i'w gyd-ddynion.

Mab iddo oedd **Richard Evans** (1771-1851), Cilmaenan, Llanfaethlu, Ynys Môn a bu yntau'n feddyg esgyrn llwyddiannus ac fel ei dad roedd 'crefyddolder blaen a chydwybodolrwydd yn nodweddion arbennig yn ei natur.'

Daeth **Evan Thomas** (1804-1884) mab Richard Evans, yn fwy enwog fel meddyg esgyrn na hyd yn oed ei daid. Symudodd i Lerpwl a bu mewn canolfan bractis yno yn trin afiechydon esgyrn a chymalau. Pan oedd asgwrn wedi cael ei symud o'i le priodol, defnyddiai ddull a enwid yn 'slow traction' gyda chwerfan (pulley) i helpu i asio'r esgyrn a dorrwyd. Credai mewn peri i'r rhai a ddioddefai oddi wrth anhwyldeb ar yr esgyrn orffwys am gyfnod hir a thrwy hynny gallodd Evan Thomas arbed sawl coes a sawl braich rhag cael eu torri i ffwrdd gan lawfeddyg.

Daeth pum mab Evan Thomas yn feddygon proffesiynol. Ei fab hynaf oedd **Hugh Owen Thomas** ac ar ôl graddio bu efo'i dad am flwyddyn yn Lerpwl cyn gweithio ar ei liwt ei hun eto yn Lerpwl. Gwnaethpwyd ei dŷ yn ysbyty breifat gydag wyth o welyau a chyflogai hefyd weithiwr lledr a gof a'r ddau yn brysur yn gwneud sblintiau ac offer a gynlluniai Hugh Owen Thomas ei hun. Doedd dim byd tebyg i'r clinig yn unman arall ac yn ddiweddarach daeth y lle yn fyd-enwog.

Daeth yn llawfeddyg eithriadol oherwydd ei gefndir teuluol ac oherwydd i afiechydon pobl dlawd y gymdogaeth yn Lerpwl roi cyfle iddo ddefnyddio a datblygu ei ddulliau ei hun. Ei arwyddeiriau oedd 'gorffwys' a 'gosodiad cywir' ac fe lwyddodd.

Ni chydnabuwyd ei waith yn ystod ei fywyd ond yn ddiweddarach llwyddodd ei nai a'i ddisgybl **Syr Robert Jones** (1857 – 1933) i ddwyn ei ddysgeidiaeth a'r defnydd a wnâi o sblintiau i sylw llawfeddygon. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf bu'r 'Thomas caliper' yn foddion i achub miloedd o aelodau ac wedi hynny fe'i defnyddiwyd yn gyffredinol ym mhob ysbyty trwy'r byd.



*Alun a Dyfrig*

Enwyd Ysbyty Orthopedig Gobowen yn Ysbyty Orthopedig Robert Jones ac Agnes Hunt yn 1933 ac yn yr ysbyty hwn y bu Syr Robert Jones yn llawfeddyg orthopedig mygedol. Dyma'r **Robert Jones** oedd yn nai ac yn ddisgybl i Hugh Owen Thomas.

Roedd mam Dyfrig , Elsi (Elizabeth) Owen cyn priodi, yn llinach y Meddygon Esgyrn ac yn gallu ail osod esgyrn ac fe wnaeth hynny sawl gwaith pan yn athrawes wrth i blant gael eu hanfon ati wedi datgymalu cymal bys neu bellen pen-glin wrth chwarae.

Dangosodd Dyfrig hen sosban i ni ac mewn sosban o'r fath cynheswyd pitch, resin a lard gan y Meddyg Esgyrn i wneud cymysgedd du, tew a daenwyd wedyn ar stribedi o bapur brown cyn ei lapio o amgylch braich neu goes oedd wedi torri. Byddai'r cyfan yn caledu wrth oeri ac yn cynnal yr asgwrn yn ei le nes y byddai wedi asio fel plastar Paris heddiw.

Darllenodd Dyfrig o lythyrau Richard Evans i'w fab Evan yn Lerpwl. Cyfeiriodd at anfon gŵydd o Gaergybi i Lerpwl mewn llong hwylio. Cafodd y capten gais i'w bwyta cyn 'iddi ddrewi' gan na fyddai'r ŵydd yn cyrraedd Lerpwl mewn cyflwr da oherwydd bod y gwynt wedi cadw'r llong yn yr harbwr yng Nghaergybi. Trafodwyd moesoldeb yn y llythyrau. Hefyd grym arferiad cychwyn llythyr drwy ddweud fod pawb yn iawn cyn dweud yn y frawddeg nesaf fod ei fam dan annwyd mawr!

Llywyddwyd ein cyfarfod gan Alun Jones ac ef a dalodd y diolchiadau am sgwrs mor ddifyr ac addysgiadol. Noson gofiadwy!

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Eglwys Unedig Y Fron a'r Brwcws

Bore Sul olaf mis Hydref yr oedd Mr Huw Vaughan Jones wedi paratoi gwasanaeth ar ein cyfer a'r organyddes oedd Eiri Jones. Yna ar fore Sul y cyntaf o Dachwedd yr oedd oedfa gymun yn y Capel Mawr gyda'r gweinidog yn gwasanaethu.

Bore Sul Tachwedd 13eg - Sul y Cofio - fe wnaeth Wendy Lloyd Jones, llywydd y mis, ein harwain gyda gweddi fer at ddwy o funud o dawelwch i gofio am y rhai sydd wedi colli eu bywydau, rhai wedi eu anafu, ac i feddwl am y teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn y rhyfeloedd. Roedd yr oedfa dan ofal ein gweinidog Y Parch Andras Iago a'r organyddes oedd Iona Edwards

# Ydi Cyngor Sir Ddinbych o ddifri ynglŷn â'r argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol?

Gyda balchder y cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych lansiad eu Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol, *'Rydym yn falch i fod yn un o'r Cynghorau cyntaf yng Nghymru i daclo newid hinsawdd ac ecolegol fel egwyddor arweiniol yn ein proses gwneud penderfyniadau gan newid ein cyfansoddiad yn ffurfiol yn Hydref 2020. Rydym wedi dechrau'n bositif ac rydym yn edrych ymlaen i weithio'n agos gyda'n cymunedau, staff, partneriaid ac arianwyr ibarhau a'n ymdrechion ar y cyd i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol'*.

Bydd CSDd yn dadlau eu bod yn gwneud camau breision i daclo'r argyfwng hinsawdd ond mae adroddiad ddiweddar gan Archwilio Cymru yn awgrymu fod ansicrwydd ynglŷn ag a fydd y Sector Gyhoeddus yn cyrraedd eu uchelgais cyfunol o sero net erbyn 2030. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddadlau fod hi'n bryd am arweiniad feiddgar gan awdurdodau lleol a'r sector gyhoeddus *"mae'n rhaid iddynt fabwysiadu swyddogaeth arwain ehangach drwy hyrwyddo'r agenda datgarboneiddio ym mhob sector yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu i weithio tuag at 'broses bontio deg' "*.

Doedd dim golwg o'r arweinyddiaeth feiddgar yma yn y Pwyllgor Cynllunio yn Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Mercher Tachwedd 9ed. Roedd aelodau o'r grŵp ymgyrch llawr gwlad 'SOGS Dinbych' yn bresennol i dystio i drafodaeth y Cynghorwyr o ail gais gan Castle Green Homes i adeiladu 110 o dai ar dir ger Ysgol Pendref yn Ninbych. Cafodd y cais gwreiddiol oedd yn cynnwys cynnig i 20% o'r tai fod yn fforddiadwy ei wrthod gan y Pwyllgor Cynllunio nôl yn Mawrth 2022.

Y tro hwn gyda 'newid' munud olaf i'r cais h.y. y posibilrwydd y byddai 70% yn fforddiadwy, derbyniwyd y cais gyda dim ond 2 gynghorydd yn gwrthwynebu; y cynghorydd Jon Harland a'r Cynghorydd Peter Scott, yr un o'r ddau yn cynrychioli Dinbych. Nid yw'r datganiad hwn ynglŷn â thrafod yr angen am dai fforddiadwy, Mae'r angen yn amlwg, Mae'r erthygl ynglŷn â'r ffaith, yn wyneb yr ARGYFWNG Hinsawdd ac Ecolegol, ni ddylid codi tai o gwbl ar dir amaethyddol o'r radd flaenaf fel y tir ble bydd y tai hyn yn cael eu codi. Nid ein barn ni fel grŵp yw hyn ond mae'n cael ei ddatgan yn glir yn Polisi Cynllunio Cymru; *"Tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol."*

Roedd aelodau SOGS Dinbych yn arbennig o flin ynglŷn â diffyg dadansoddiad manwl o faterion amgylcheddol yn y Pwyllgor Cynllunio na'u ymrwymiad statudol i'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Doedd dim trafodaeth ar effaith datblygiad o'r fath ar wasanaethau llinell flaen yn Ninbych sydd yn barod dan bwysau na'e effaith ar yr Iaith Gymraeg yn lleol.

Datganodd Gwyneth Kensler, y cyn-gynghorydd ac aelod o'r pwyllgor wrthododd y cais ym Mis Mawrth, yn ei sylwadau i'r Pwyllgor Cynllunio 'ar bod cyfri dylid adeiladu tai sy'n fforddiadwy i bobl leol ond ar safleoedd tir llwyd (brownfield).. bydd rhai ohonoch yn ymwybodol fod Dinbych wedi colli llawer o fannau gwyrdd yn y blynyddoedd diwethaf gyda datblygiadau yn rhan isaf Dinbych megis Cae Topyn. Ni ddylid caniatáu i ddatblygiadau o'r fath barhau.

Gofynnwn i CSDd

* Ble mae'r drafodaeth gyhoeddus gyda'n cymuned ynglŷn â phryderon amgylcheddol?
* Oes gan y Cyngor Bencampwyr Amgylcheddol ymhob adran fel bod pob penderfyniad yn cael ei archwilio gyda golwg ar newid hinsawdd? Dyna ddywedodd y Cyngor oedd eu bwriad.
* Beth yw rôl yr Adran Cynllunio Argyfwng ynglŷn â'r materion yma.
* Be mae CSDd yn wneud i amddiffyn mannau gwyrdd yn Ninbych?

Cyn bo hir bydd y Pwyllgor Cynllunio yn trafod cais gan Breedon i ehangu'r chwarel. Mae ein ffydd yn ein Cynghorwyr lleol i wrando ar y llu o wrthwynebiadau i'r golled o fannau gwyrdd a'r difrod amgylcheddol wedi ei niweidio gan y penderfyniad uchod.

Ein her i'r Cyngor yw dechrau trafod efo'r gymuned rŵan cyn i ni golli mwy o fannau gwyrdd. Oes posibilrwydd o Gymdeithas Budd Cymunedol i brynu'r tir ger y chwarel? Glynwch at ysbryd Polisi Cynllunio'r Llywodraeth a phwysigrwydd **creu lleoedd** i wireddu llesiant ein cymuned leol. Gobeithio eich bod yn ymwybodol mai prif egwyddorion y dull yma yw: *"Caiff anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pobl eu hystyried o'r dechrau'n deg. Caiff cynigion eu llunio er mwyn helpu i ddiwallu'r anghenion hyn a hefyd greu, integreiddio, diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymdeithas a hyrwyddo cydraddoldeb." (Polisi Cynllunio Cymru)*

*Mair Jones*
*(SOGS Dinbych)*



# Noson Dathlu Siop Clwyd yn 50

Ar Nos Sadwrn, Tachwedd 19eg, cynhaliwyd swper arbennig i ddathlu 50 mlynedd o fodolaeth Siop Clwyd ac i longyfarch y teulu am eu holl waith a'u cymwynasgarwch i'r dref.
Wedi'r bwyd, yng Nghlwb Golff Dinbych, cyflwynwyd tipyn o hanes y siop gan Eifion Lloyd Jones, gyda chyfraniadau arbennig gan Gaynor Morgan Rees a Leah Owen – Leah yn canu can newydd sbon am Siop Clwyd hefo cyfle i'r gynulleidfa ymuno yn y cytgan.
Dywedodd Eifion fod Edith a Rhianwen yn gweithio i'r weinyddiaeth Amaeth nôl yn 1971. Roedd eu swyddi yn mynd rownd ffermydd yn dod i ben ac roeddynt yn mynd i golli cyfarfod a mwynhau siarad efo pobl.
Roedd Rhianwem wastad wedi bod eisiau agor siop lyfrau. Roedd o yn y gwaed achos fod gan ei thad ddiddordeb mawr, yn prynu pob llyfr Cymraeg oedd ar y farchnad pryd hynny o siop Arianwen Parry, Llanrwst.
Rhentwyd 5 Stryd y Dyffryn ac roedd hi'n dipyn o ras i fod yn barod i agor. Brawd Edith, Gwyn, yn farneisio'r llawr ganol nos tan 3.00am y bore ddiwrnod yr agoriad sef y 25ain o Fawrth1972.
Doedd dim profiad busnes gan y ddwy a dim gobaith cael cynhaliaeth byw ar y siop, felly rhaid oedd cael swyddi eraill a'r cyflog hwnnw yn cynnal y siop. Tipyn o aberth.
Y staff cynnar oedd Gladys Thomas (Anti Glad i deulu Siop Clwyd a daeth llawer ohonom i'w nabod felly hefyd) a Beti Egryn (Jones). Roedd Gladys yn gweithio mewn siop ddillad merched ar y gornel wrth Neuadd.y Dre. Roedd y genod yn methu cynnig cyflog call iddi ond hi'n awyddus iawn! Gweithio'n pnawn a Beti'n y bore Mrs Thomas yn dweud na wnaeth hi'm dechrau byw nes dechrau'n Siop Clwyd! Bu iddi ymddeol yn 1984.
Dilys Davies a Glenys Evans yn gweithio yno wedyn, a Rhiannon Jones ar fore Sadwrn. Dilys erioed wedi meddwl y gallai weithio mewn siop, ond mwynhau am 15 mlynedd! Roedd yn siop gymdogol, pobol y wlad, pobl yn gadael eu neges cyn mynd i rywle arall. Ar ddydd Mawrth, byddai'r ffermwyr ym marchnad Smithfield a'r gwragedd yn crwydro'r siopau i brynu a sgwrsio alle gwell am sgwrs na Siop Clwyd.
Doedd Edith a Rhianwen. ddim yno'n ystod y dydd yn yr wythnos, ond yna ar Ddydd Sadwrn a phob gyda'r nos. Darfod bywyd cymdeithasol! Rhianwen efo'r llyfrau a recordiau, Edith efo'r cardiau a'r ddwy efo'r crefftau.
Ym Mai, 1986, daeth yr hen Siop Pwmp ar werth - Siop hynaf yng Nghymru yn ôl Cadw. Alun Creunant Davies o'r Cyngor Llyfrau yn rhoi stoc ½ blwyddyn heb dalu er mwyn sefydlu a Meirion Rees, Barclays, yn gefnogol iawn.
Rhoddwyd cyfle i lwyth o bobl ifanc dros y blynyddoedd i gael profiad ymwneud â phobl a dysgu bod yn gymdeithasol drwy weithio ar Ddydd Sadwrn neu yn ystod gwyliau. Yn eu plith Lisa Gwilym!, Einir Williams ac Elliw Glyn.
"Pob peth dan ni wedi'i wneud yn wirion bost – pobl yn meddwl bod ni'n lloerig!"
Pan oedd y Edith a Rhianwen yn barod i rywun arall gymryd yr awenau ceisiwyd gwerthu ond heb lawer o awydd ei gweld hi'n mynd nes daeth aelodau o'r teulu i'r adwy, nithoedd, merched brawd Rhianwen.
Y chwiorydd Gwerfyl Jones a Gwawr Cordiner afaelodd yn yr awenau. Gwerfyl oedd yn gofalu fwya' am y siop, Gwawr yn "sleeping partner", ond ddim yn cysgu llawer efo cymaint ar ei phlât. Roedd Gwawr wedi mwynhau mynd i'r siop yn ferch ifanc ac roedd ganddi diddordeb mewn llyfrau erioed, a'i swydd gynta' yn y llyfrgell.
Pan benderfynodd Gwerfyl ymddeol daeth gŵr Gwawr, Andrew, yn bartner newydd ac roedd gan Martha eu merch ddiddordeb mawr, yn enwedig yn y crefftau.
Manteisio ar y cyfnod clo i wneud addasiadau ac adnewyddu'r siop, tasg sydd angen ei gwneud yn aml.
Mae'r teulu yn teimlo'n andros o lwcus bod ganddynt staff fel Ann Morris (archebu stoc) ac Annwen Wms.
Da ni'n lwcus o Siop Clwyd ac yn dymuno 50 ml. arall!!!

Cafwyd gair ar ran y staff gan Anwen Williams ac ymateb ar ran "teulu Siop Clwyd" gan Gwawr Cordiner ar y diwedd. Cyflwynwyd cyfresi o englynion gan ddau o feirdd y dref a hefyd cyflwynwyd copïau o'r englynion wedi eu fframio i Edith a Rhianwen ac i Gwawr ac Andrew.
Yn ychwanegol, cyflwynwyd copïau wedi eu fframio o gartŵn gan Huw Vaughan Jones yn llongyfarch y siop ar yr hanner canrif.
Yr oedd Hywel Evans yno yn tynnu lluniau.
Diolchwyd ar y terfyn gan Dilwyn Jones.

**Cân Leah a'r englynion**

Mae Dinbych yn dre hanesyddol
A'i hadeiladau mawr -
Y farchnad yn Smithfield a'r hen 'Sbyty, hefyd,
Y ddau 'di hen gau i lawr.

*Siop Clwyd sydd yn dal yma,*
*Siop Clwyd ydi'r lle gora';*
*Cewch lyfra a chardia, a chreffta' hardd*
*Yn Siop Clwyd.*

Hon ydi'r siop hyna' yng Nghymru
Ers tua mil chwe chant –
Siop gwerthu menyg oedd yno bryd hynny,
Ond rwan, llyfrau i blant.

Bu dynion y dre yma'n enwog -
Gwilym R a Thomas Gee;
Ond ar ôl pob 'sgwennu mae angen eu gwerthu,
A dyna wnaeth genod ni.

Rhianwen ac Edith fu'r sylfaen
Ym mil naw saith deg dau,
Ac yna daeth Gwerfyl a Gwawr i'w holynu -
Gobeithio na wneith hi fyth gau.

*Eifion Lloyd Jones*

Mae 'leni'n hanner can mlynedd – o ddal
Y ddwy â'n hedmygedd;
Inni, o lyfr, daw y wledd
O eiriau â'u cyfaredd.

Eto i'w hald, daeth y to iau – yn frwd
I fwrw her i ninnau,
A'r her hon yw sicrhau
Y wefr ymysg y llyfrau.

Rhannwyd eu trysor inni – a'n rhodd
Yw braint cael cefnogi;
Hyd farw fe gawn glodfori
Balihw ein jiwbilî (ni!).

*Berwyn Roberts*

Ar dop y dref cartrefol – siop y stryd
I fyd sy'n hanfodol;
Gorau oll, Cymreig ei rôl,
A'i gwariant yn wladgarol.

Y mae'n siŵr mai'r mân siarad – yw'r hanes
Sy'n rhan o'r adeilad;
Tyner yw ei hatyniad,
Unig lais dros nwyddau'n gwlad.

A phumdeg oed, boed ei byd – yn ymroi
Mor Gymreig ei hysbryd;
Siop Clwyd ar heol golud,
Y mae hi yma o hyd!

*Arwel Emlyn Jones*

*Mwy o luniau ar dudalen 2*

## Oergell Gymunedol Eirianfa

Agorodd Oergell Gymunedol yn Eirianfa dydd Llun 21ain o Dachwedd. Bydd ar agor bore Llun a bore Iau 10-12 er mwyn dosbarthu bwyd yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd yn ymweld.
Syniad yr Oergell yw rhwystro gwastraff bwyd yn ogystal a bod o gymorth i rai mewn angen.
Daw y rhan fwyaf o'r cynnyrch o fwyd dros ben o'r archfarchnadoedd lleol, a fyddai wedi ei wastraffu heb ei ddefnyddio. Cawn ambell i gyfraniad gan unigolion hefyd. Bydd y math o fwyd yn amrywio o wythnos i wythnos.
Mae grŵp Cymuned Bwyd Dinbych wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar gyda'r bwriad o annog cynhyrchu bwyd yn lleol, cynnig gwersi coginio a lleihau gwastraff bwyd yn gyffredinol gyda llawer o sefydliadau lleol ac unigolion yn ran ohono. Felly mae'r Oergell yn ran o'r datblygiad yma.
Rydym yn cyfathrebu gyda'r banc bwyd sydd wrth gwrs yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r gymuned yn ogystal a'r HWB a Grwp Cynefin a gobeithiwn y bydd yr Oergell yn medru ychwanegu at eu gwaith da.
Mae'r Oergell yn wahanol i'r banc bwyd mewn tair ffordd. Yn gyntaf mae ar gael i unrhyw un, y nod yw defnyddio bwyd dros ben yn hytrach na'i daflu. Yn ail nid oes angen cael tocyn i ymweld â'r oergell. Yn drydydd, mae'r oergell yn cynnig bwyd ffres fel llysiau, ffrwythau a hefyd bara nad oes modd eu cadw yn y banc bwyd.
Yng ngŵyl y Tŷ Gwyrdd dydd Sadwrn 19 cawsom stondin lle'r ymwelodd 27 o bobl i gymryd cynnyrch adref a heddiw yn Eirianfa daeth 20. Felly rydym yn gobeithio y bydd y fenter o les i deuluoedd ac unigolion yn ogystal a lleihau gwastraff bwyd.
Os oes gennych ddiddordeb mewn mwy o wybodaeth, ein helpu, neu wirfoddoli ychydig o oriau pan yn gyfleus, cysylltwch â Hywel Watkin 07748994209.

Dewch draw i Eirianfa i'n gweld!




## Y Gymdeithas Gymraeg

Ar Nos Wener Tachwedd 4ydd, cafwyd noson arbennig o hwyliog yng nghwmni yr awdures Marlyn Samuel yn siarad am ei 5 nofel (ac un arall ar y ffordd!).
Cyflwynwyd a diolchwyd gan Leah Owen.
Erfyl a Carys Williams oedd yng ngofal y baned wedyn a chafwyd cyfle i brynu copi o rai o'r nofelau a chael y copi wedi ei arwyddo.
Llongyfarchwyd Nancy Jones, un o gyn-lywyddion y Gymdeithas, ar ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Cofion gorau ati.
Edrychwyd ymlaen at ein cinio i ddathlu 50 mlynedd o Siop Clwyd ac at ein cyfarfod nesaf ar Ragfyr 2il hefo'r Parch John Owen, Rhuthun.
*E DILWYN JONES – YSG*
dilwynjones2017@outlook.com




Marlyn a Leah

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

**www.sirddinbych.gov.uk**

**E:mark.young@sirddinbych.gov.uk**

# Apêl am siaradwyr Cymraeg i sgwrsio gyda dysgwyr

Siarad.
Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda'i gilydd



Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn chwilio am siaradwyr Cymraeg i ymuno yn eu cynllun 'Siarad', sy'n paru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr.

Mae cannoedd o ddysgwyr ledled Cymru eisoes yn rhan o'r cynllun, ac wedi eu paru, ond mae cannoedd mwy ar restr wrth gefn, yn aros i gael eu paru.

Nod y cynllun ydy rhoi cyfle i ddysgwyr fagu hyder trwy sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg a'u cyflwyno i gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg yn lleol.

Mae ymdrech ar droed i ehangu'r cynllun i ardal Dinbych. Dywedodd Ioan Talfryn, Prif Weithredwr Popeth Cymraeg "Mae'r cynllun hwn yn un pwysig gan ei fod yn rhoi cyfle i ddysgwyr siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd go iawn efo siaradwyr Cymraeg "normal" – os gallwn eu galw felly – nid athrawon iaith. Y peth pwysig ydy i siaradwyr Cymraeg fod yn fodlon sgwrsio am bob peth dan haul mewn ffordd naturiol. Does dim angen poeni am ramadeg na chywirdeb iaith. Yn wir, mae'n beth da i ddysgwyr glywed pobl yn defnyddio'u tafodieithoedd lleol."

Un o'r siaradwyr sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun ers blynyddoedd yw'r gyflwynwraig deledu a'r tiwtor Cymraeg, Nia Parry. Dywedodd, "Os ydych chi'n ystyried cymryd rhan yn y cynllun, mi fyddwn yn eich annog i fynd amdani – heb os. Mae bywyd yn brysur ond efallai y gallech roi ychydig o amser dros ginio, unwaith yr wythnos. "Mae na dri chant o bobl yn disgwyl am bartner siarad, felly mi allech chi wneud gwahaniaeth mawr i daith person sy'n dysgu Cymraeg efo 'chydig iawn o ymdrech.

"Dw i wedi mwynhau y profiad yn fawr ac mae meddwl am gael sgwrsio gyda Sarah, fy mhartner siarad, wastad yn codi fy nghalon."

Ychwanegodd partner siarad Nia, Sarah Roberts, sy'n athrawes lanw yn Mochdre, "Dw i'n siarad Cymraeg gyda thiwtoriaid a rhai o staff yr ysgol, ond dw i ddim yn cael llawer o gyfle i siarad Cymraeg yn fy mywyd bob dydd. Mi oeddwn i eisiau profiad o siarad am bethau arferol a chael hwyl.

"Mae'n hyfryd iawn cael siarad efo rhywun sy'n rhugl. Mae'n neis siarad efo dysgwyr eraill ond mae'n well gyda pherson rhugl."

Ychwanegodd Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, "Wrth ddysgu unrhyw sgil newydd, mae angen ymarfer. A dyw dysgu iaith ddim yn eithriad.

"Felly, roeddem ni eisiau rhoi cyfle i siaradwyr newydd sgwrsio rhwng gwersi ond hefyd eu cyflwyno i gyfleodd yn y gymuned i siarad Cymraeg.

"Rydym yn gofyn am ymrwymiad o 10 awr – ac mi all hynny fod tra'n sgwrsio dros baned, mewn gêm bêl-droed, yn y côr, wrth fynd am dro neu lle bynnag sy'n apelio."

Mae galw am bobl ar draws Cymru ac mae modd cofrestru trwy ymweld â gwefan dysgucymraeg.cymru neu e-bostio swyddfa@dysgucymraeg.cymru


CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall



## Cynghorwyr Sir Ddinbych
## Eich Cynghorwyr Plaid Cymru



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle wê y Cyngor Sir

## Sefydliad DPJ




Bydd llawer ohonoch yn adnabod Elen, merch ffarm Fron Felen nid nepell o'r Groes ac yn ferch i Nan sy'n gweithio yn y llyfrgell yma yn Ninbych ac yn cyfrannu deunydd yn rheolaidd i'r Bigwn. Efallai nad ydych yn gwybod fod Elen yn gweithio i sefydliad DPJ fel cynorthwy-ydd marchnata ac ymgysylltu. Dyma oedd ganddi i ddweud am y sefydliad. "Mae diwydiant ffermio yn wynebu cyfnod heriol ar hyn o bryd, gyda chostau cynyddol cyflenwadau fferm, costau byw, newid hinsawdd, a phwysau ffermio dyddiol yn achosi cryn dipyn o straen ar ffermwyr a'r cyhoedd. Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n bwysig ein bod yn gofalu am ein gilydd ac yn rhoi help llaw pan fydd pethau'n mynd yn anodd.

Mae Sefydliad DPJ yma i chi, i wrando ac i'ch cefnogi drwy unrhyw anhawster. Fel mae'r dywediad yn deud, 'mae problem wedi ei rannu yn broblem wedi ei haneru', hynny ydi mae siarad am yr hyn sydd yn eich poeni gyda rhywun arall yn help, dyma ydi'r cam cyntaf i allu cael cymorth. Da' ni gyd yn mynd drwy gyfnodau anodd mewn bywyd, mae'n bwysig ein bod yn estyn allan am gymorth pan fydd ei angen, yr un modd a da ni'n cael gweld doctor pan ydym ni'n sâl neu wedi brifo, mae ein hiechyd meddwl angen yr un sylw.

Yma yn Sefydliad DPJ rydym yn rhedeg gwasanaeth 'Rhannwch Y Baich' sef llinell ffôn a thestun sy'n gwbl gyfrinachol. Mae'n agored pob awr, pob dydd o'r flwyddyn ac yn cael ei redeg gan ein gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi gan y Samariaid i allu eich helpu. Maent hefyd a chyswllt o fewn amaethyddiaeth, felly yn gallu cydnabod eich problemau. Unwaith bydd rhywun yn cysylltu â'r gwasanaeth bydd y gwirfoddolwyr ond yn gofyn am enw cyntaf ac yr ardal o ble mae'r unigolyn yn byw, ar ôl siarad byddent yn cael eu rhoi mewn cyswllt a chwnselydd. Mae cwnselydd yn cysylltu â'r rhai sy'n galw o fewn 48 awr ac yn cael eu gweld o fewn wythnos. Cynigwyd cwnsela ar y fferm, ar-lein, dros y ffon neu wyneb yn wyneb mewn lleoliad oddi ar y fferm. Mae ein cwnselwyr yn siarad Cymraeg a Saesneg ac wedi ei lleoli ym mhob rhan o Gymru.

Math o therapi yndi cwnsela, lle diogel a chyfrinachol i chi siarad â rhywun proffesiynol am eich materion a'ch pryderon. Mae'n gyfle i chi allu siarad am unrhyw beth, bydd y therapydd yn gwrando arnoch a'ch cynghori sut i ddarganfod ffyrdd i allu delio a'ch emosiynau. Mae'n haws weithiau gallu siarad â rhywun dieithr am yr hyn sydd yn eich poeni, peidiwch cadw popeth i chi eich hun, mae'n bwysig cymryd y cam cyntaf a gofyn am help.

Os da chi ddim yn teimlo fel chi'ch hun a bod rhywbeth yn eich poeni e.e. mynd drwy gyfnod anodd mewn perthynas, teimlo'n unig, wedi colli rhywun annwyl ac yn galaru, problemau ar y ffarm, neu unrhyw beth arall sydd yn eich poeni, os yw yn fater bach neu fawr, gallwn helpu. Peidiwch â meddwl eich bod chi ar ben eich hun. Rydym yma i siarad, i helpu, pob awr o'r dydd, pob diwrnod o'r flwyddyn. Ffoniwch 0800 587 4262 / Testun 07860 048799

Yn ogystal ar gwasanaeth 'Rhannwch Y Baich' rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl mewn amaethyddiaeth am ddim i gefnogi unrhyw un sy'n ffermio, yn byw yn y gymuned wledig neu'n darparu cymorth neu wasanaethau i'r gymuned ffermio yng Nghymru. Wrth fod yn aelod o Ferched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifanc, pwyllgorau yn y gymuned, y neuadd gymunedol, ysgolion cynradd ac uwchradd, y dafarn leol a hefyd y siop leol, rydych yn rhan o gymuned ac yn gallu helpu rhywun. Mae'r hyfforddiant yn edrych ar:

* Sut i adnabod arwyddion rhywun sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl.
* Beth i'w wneud pan fyddwch yn sylwi ar yr arwyddion hyn.
* Ymwybyddiaeth o hunanladdiad.
* Annog rhywun i gael cymorth.
* Gofalu am eich iechyd meddwl eich hun

Gyda'r wybodaeth yma, fe allech chi achub bywyd rhywun. Dilynwch ni ar ein gwefan Eventbrite i gael cofrestru ar hyfforddiant yn y dyfodol. Rydym yn cynnig sesiynau ar lein neu wyneb yn wyneb, felly os hoffech chi gynnal hyfforddiant yn eich ardal chi, cysylltwch â'n rheolwr hyfforddiant – kay@thedpjfoundation.co.uk. Rydym hefyd yn cynnig nosweithiau clwb, ble mae ein gwirfoddolwyr yr ardal yn cynnal noson am Sefydliad y DPJ. Os ydych â diddordeb cysylltwch ag Elen – elen@thedpjfoundation.co.uk

Cofiwch, dydych chi byth ar ben eich hun, rydym ni yma i chi. Does dim cywilydd mewn gofyn am help. Ffoniwch 0800 587 4262 / Testun 07860 048799. Rhannwch y baich.






# Nid Chwarelwr ydwyf i - Rhan 8 (2)




**Wythfed diwrnod o daith Llwybr y Llechi**

**Ar y ffordd i Bethesda = Capel Curig i Bethesda**

17.6km, 11.0milltir



**Maes Caradog**
Heb os dyma dro annisgwyl i'r daith, eistedd i lawr am ychydig o frechdanau a sylwi ar resi o ddefaid yn dod i lawr o'r mynydd. Diwrnod ar ôl Alban Elfed (Autumn Equinox) gydag oerni gaeafol yn y gwynt. Yna gweld ci wrth ei waith a bugail mynydd a rhyw ddau gi arall, wedyn bugail arall yn dod â'r defaid i siap ffwnel a thri chi ganddo. Wedyn bugail a chŵn o'r tu cefn yn sicrhau fod y defaid yn dod i lawr i gorlan yn y dyffryn. Digon o ryfeddod, buaswn yn fodlon talu yn ddrud am docyn i weld a blasu'r profiad o Hel Mynydd. Does bosibl fod y fferm yma gyda'i dresel Gymreig i'w gweld drwy y drws a chytiau moch hen ffasiwn yn ddarlun delfrydol o hen fferm Gymreig. Braint a phleser, profiad gwych, teimladau bodlon. Da iawn nhw. Arwydd o aeaf yn dod ac ymbaratoi. Rhaid bod yn barod am aeaf.
Yn ogystal darllenais mai Caradog oedd Caractacus, adeg y Rhufeiniaid, a'i fod wedi cuddio yma yn y coed ac mai dyna lle daeth yr enw: Maes Caradog.



**Gwastraff Chwarel Penrhyn**
Teimlai fel bo milltiroedd ohono, yn igam ogam mewn bryniau gwneud gan rwbelwyr yn taflu gwastraff yn fryniau bach rownd pob cornel. 83 milltir o daith y Llwybr Llechi, bron a'i gorffen ond am rhai corneli!

**Diwedd y daith**
Ynghanol Bethesda, man i gyfnodi diwedd taith faith. Mae hi wastad yn braf gorffen taith ac hefyd yn drist gan fod darganfod llefydd newydd yn dod i ben. Dyna ni, dim i'w wneud ond meddwl am daith arall!
Arwel Emlyn

**Maes Caradog**
Mae'r tymor eto yma
Ar hen lechwedd ddiwedd ha',
Tymor hel gorwel garw
Ŵyn tymhorol eu nhôl nhw
Yn eu holau o'r heulwen,
O'r byd lle mae'r haf ar ben.
Enaid hoff daeth newid hin
I nefoedd o gynefin,
Haul mwyn a hel y mynydd
Crwydro tir didoli'r dydd.
Lle bu'r haf yn llawn afiaith
Gwelwn gŵn wrth eu gwaith
A helfa fawr lawr y wlad,
Ymadael yw'r symudiad,
Gadael y creigiau ydyw,
Arwain ŵyn i'r dyffryn yw.
Hel i dir isel o raid
Yw galwad y bugeiliaid,
Hen waedd yw hel mynyddoedd
I fyw'r gaeafau a oedd.
Ac i fyw gaeafau fydd
Mae yna hel y mynydd.



Cerflun i ddynodi diwedd y daith ym Methesda

Diolch i Arwel am ein tywys ar hyd y Llwybr Llechi o Fangor i Fethesda sy'n 83 milltir i gyd. Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i ddilyn ôl troed Arwel a mwynhau'r profiad. (gol.)

# Penri Jones yn trafod "Breuddwyd Syr Ifan"


Na dydi Trefnant ddim yn ein dalgylch swyddogol sef tref Dinbych ond dwi'n gwybod fod nifer o drigolion y dref yn mynychu'r sgyrsiau diddorol sydd yn cael eu cynnal gan Gylch Llenyddol Glannau Clwyd a felly dwi wedi penderfynu cynnwys hwn (gol). Gobeithio y bydd yn fodd i fwy o'n darllenwyr ddod yn ymwybodol o'r cyfarfodydd hyn a'u mynychu.

Penri Jones, awdur "Breuddwyd Syr Ifan", oedd gwestai mis Tachwedd Cylch Llenyddol Glannau Clwyd, a chafwyd noson hwyliog a difyr iawn yn ei gwmni wrth iddo adrodd hanes sefydlu Urdd Gobaith Cymru, neu yr Urdd Er Mwyn Cymru i roi ei enw gwreiddiol arno, ganrif yn ôl.

Bu tad Penri, Ap Morris Jones o Lanuwchllyn, yn gweithio'n agos iawn efo Ifan ab Owen Edwards a'i wraig, Eirys Phillips, wrth iddynt sefydlu'r mudiad yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf a threfnu'r gweithgareddau cyntaf. Seiliwyd llyfr Penri ar swp enfawr o ohebiaeth a gadwyd gan ei dad o'r cyfnod cychwynnol hwnnw. Mae'n llawn lluniau a phytiau diddorol am sefydliad a llwyddiant y mudiad blaengar a ysbrydolodd ac a ddifyrrodd blant Cymru ar hyd y degawdau ac a wnaeth cymaint i sicrhau parhad a ffyniant yr iaith hyd heddiw.

Bu ymweliad Penri yn gyfle da hefyd i'r gynulleidfa hel atgofion am eu profiadau hwy fel aelodau o'r Urdd ac o'u hanturiaethau yn y gwahanol wersylloedd!

Gwestai nesaf y Cylch, nos Lun 5 Rhagfyr, fydd yr Athro Deri Tomos a'i bwnc fydd "Kyffin, Coch a Melyn". Dewch draw i Gapel Trefnant (LL16 5UG) erbyn 7pm i glywed mwy am 'hanes ein hymgais i ddiffinio lliw a chipolwg ar sut mae'r llygad a'r ymennydd yn gweithio'. Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd, 9 Ionawr, Elfyn Llwyd fydd yn dod atom efo 'Argraffiadau ar Fywyd Seneddol' - dwy noson hwyliog arall beryg!



*Penri Jones a Dr Goronwy Wynne, a oedd yn cofio mynd i'r gwersyll cyntaf i'w gynnal yng Nglanllyn ym 1950!*

# Difyrion Digidol

Y mis hwn, rwyf am drafod un ffordd hwylus iawn a didrafferth o gyrraedd gwefan benodol ar eich ffôn neu dabled heb orfod teipio ei chyfeiriad yn llawn.

Ydych chi wedi sylwi ar gornel posteri neu docynnau rhyw god rhyfedd yr olwg? Ydych chi wedi meddwl beth yw pwynt y cod hwn? I ateb y cwestiwn, dyma beth sy'n cael ei alw'n god QR neu *Quick response* i roi ei enw llawn. Mae'r dull hwn wedi bodoli ers blynyddoedd, yn mynd a dod o ran poblogrwydd ond mae'r cod hwn wedi ennill ei blwyf fel ffordd hwylus o allu cael mynediad sydyn a diffwdan at wefan. Os ydych y tu allan yn yr awyr agored ac eisiau manylion pellach am ddigwyddiad neu weithgaredd, mae'n gyfleus ac yn hawdd. O ran gwella hygyrchedd i bobl sy'n cael trafferth teipio, mae QR yn ffordd wych o allu osgoi y rhwystr hwnnw. Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw agor camera eich ffôn a'i bwyntio at y cod a'i ddal yno am eiliad er mwyn ei sganio. Wedyn fe ddaw cyfeiriad y wefan i'r golwg, yna, pwyswch ar y ddolen ac fe fydd hynny yn eich arwain at y wefan. Mae'n bosib canfod codau QR mewn pob math o sefyllfaoedd bellach ond yn tueddu i fod yn boblogaidd gyda thocynnau digwyddiadau, yn rhoi gwybodaeth am leoliad o bwys amgylcheddol, safleoedd hanesyddol neu atyniadau twristaidd a llawer iawn mwy. Mae rhai sefydliadau yn defnyddio codau QR i greu helfa drysor er enghraifft i blant. Felly cadwch lygaid am y cod QR ac ewch ati i'w sganio os ydych yn chwilfrydig. Mae'n bosib hefyd i greu eich cod QR am ddim eich hun i hyrwyddo unrhyw fath o ddigwyddiad ar boster, er mwyn gallu tywys y defnyddiwr i ganfod manylion pellach ar eich gwefan Facebook. Mae yna sawl gwefan yn cynhyrchu codau QR am ddim e.e. https://www.the-qrcode-generator.com/ Er mwyn creu eich cod QR unigryw, mae'n rhaid copïo a phastio cyfeiriad llawn y wefan yn y blwch ac mae'r wefan uchod yn trosi'r cyfeiriad yn god QR yn awtomatig, gallwch wedyn ei lawrlwytho fel delwedd ffeil png/jpg i'w ddefnyddio mewn dogfen Photoshop neu Word er mwyn ei osod ar ddelwedd arall. Dyma god QR i'r wefan greu i chi weld sut mae'n gweithio. Hefyd un i wefan Y Bigwn!

QR gwefan creu QR

QR Y Bigwn

Mae'n bosib hefyd i greu codau QR sy'n storio neges destun yn cynnwys gwybodaeth bellach am ddigwyddiad, lleoliad, hanes neu rywogaeth ym myd natur. Mae llwybrau treftadaeth yn tueddu i gynnwys QR ar hysbysfwrdd i roi gwybodaeth ar hyd y daith am leoliadau pwysig neu sydd o ddiddordeb. Ond mae'n bosib hefyd i arwain y defnyddiwr at ddogfen PDF neu ap cysylltiedig. Mae'r potensial yn ddi-ben-draw. Felly, beth am roi tro arni? Crëwch eich cod QR eich hun a'i osod mewn hysbyseb? Mae'n hwyluso mynediad i bawb ac yn arbed y drafferth i bobl orfod teipio'r cyfeiriad hir.

Ydych chi'n gwirfoddoli gyda mudiad neu gymdeithas leol? Os hoffech chi fel mudiad neu gymdeithas arweiniad pellach ar godau QR, neu'n awyddus i gael hyfforddiant am ddim ar wella ymgysylltiad cymunedol trwy'r cyfryngau cymdeithasol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@wales.coop

# Cornel y Plant

Y BIGWN



| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | A | O | I | U | R | U | T | U | U | O | C | N | B | O | R | P | B | M | B | A |
| B | T | R | D | O | L | L | H | H | T | N | O | D | S | I | E | G | A | H | L | I |
| B | P | I | D | L | U | O | H | L | O | T | L | N | L | G | R | S | R | I | H | P |
| S | C | T | U | W | M | L | M | C | D | O | E | T | H | I | O | N | F | L | A | C |
| H | O | N | A | E | W | Y | U | L | B | A | T | S | S | O | A | O | P | N | W | S |
| I | E | H | R | D | N | A | B | A | B | E | L | E | G | N | A | G | T | E | P | R |
| R | D | M | T | O | D | M | L | O | L | F | E | D | G | B | R | B | U | W | U | M |
| H | E | G | A | U | C | U | C | D | S | O | H | C | W | D | D | E | H | B | E | H |
| L | N | R | D | I | I | N | R | R | C | E | R | P | N | B | F | E | E | M | W | I |
| H | D | U | L | C | R | D | O | N | H | H | T | A | P | U | O | D | I | E | P | P |
| C | E | D | R | A | W | T | U | I | O | A | N | L | C | A | F | N | B | H | S | R |
| C | A | W | H | Y | N | N | J | S | S | R | H | H | A | D | I | T | T | E | Y | S |
| L | T | I | R | O | A | R | O | O | H | O | P | F | B | A | C | W | A | L | E | N |
| P | P | A | R | D | S | F | T | E | S | B | T | I | N | U | T | M | T | H | S | E |
| G | I | M | O | H | T | A | G | O | M | E | N | B | S | E | W | P | L | T | P | O |
| N | L | L | L | U | H | I | N | W | M | S | F | A | R | L | Y | A | N | E | R | C |
| S | I | U | S | P | O | M | N | L | C | E | D | F | T | O | T | E | H | B | M | D |
| G | P | B | P | N | B | I | H | R | A | R | R | U | D | G | R | H | C | B | T | N |
| T | D | G | W | D | N | Y | O | I | R | P | G | U | G | E | C | B | E | F | R | L |
| F | U | L | A | B | O | G | R | D | W | N | H | L | S | G | A | R | I | E | E | I |

NADOLIG
MAIR
JOSEFF
GOLEUADAU
CAROLAU
DOETHION
HOSAN
TWRCI
DWYRAIN
CARW
MUL
BUGAIL
EIRA
PRESEB
OEN
BETHLEHEM
SEREN
ADDURNO
HEDDWCH
STABL
SIONCORN
COEDEN
BABAN
ANRHEGION
ANGEL

# Gŵyl y Tŷ Gwyrdd

Ar Dachwedd 19eg cynhaliwyd yr ail ŵyl eleni gan Y Tŷ Gwyrdd. Roedd yr ŵyl yn defnyddio dau lawr Neuadd y Dref a'r strydoedd tu allan. Pan fu gohebydd Y Bigwn yn ymweld yn y bore roedd nifer fawr o bobl yn crwydro o stondin i stondin a dywedodd Marguerite Pearce cyfarwyddwr Y Tŷ Gwyrdd ei bod yn hapus iawn efo'r nifer oedd wedi mynychu.

Roedd llawr gwaelod Neuadd y Dref yn llawn o stondinau amrywiol, crefftau o bob math, bwydydd, gwaith celf ac ati. Roedd gan Y Bigwn bresenoldeb ar stondin y Fenter Iaith. Roedd yr Oergell Gymunedol (gweler erthygl ar dudalen 8) yno ac roedd Rob, Prif Gogydd Nant y Felin, yno yn dangos sut i wneud prydau bwyd maethlon efo beth bynnag oedd ar gael gan ddefnyddio llysiau o'r Oergell Gymunedol.

I fyny'r grisiau yn y Neuadd cynhaliwyd Gwibsgwrs – cyfle i ddysgwyr siarad efo Cymry Cymraeg. Cychwynnwyd y sesiwn gyda tipyn o ganu gan gynnwys Yma o Hyd wrth gwrs cyn symud ymlaen i gynnal sgyrsiau byr yn null arferol gwibsgwrs. Ar ôl y wibsgwrs roedd gweithdai crefft ac ati yn cael eu cynnal yno.



Stondinau o bob math



Gwibsgwrs



Y BIGWN

# YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.
Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?
Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i'r gymuned leol?
Ydych chi awydd sialens newydd?
Os ydi'r ymateb yn bositif i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.
Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk
Stan Lyall (01745 813659) neu
Sian Rogers (01745 813368)

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

| | |
|---|---|
| Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, | Plas Tirion, Kinmel Avenue, |
| Dinbych, LL16 4RH | Abergele, LL22 7LW |
| Ffôn: 01745 812935 | Ffôn: 01745 827777 |
| Ffacs : 01745 817303 | Ffacs : 01745 827750 |
| E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com | E: rwroberts.abergele@gmail.com |

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors

Tu allan i'r neuadd roedd cyfle i fwyta Mochyn Rhost, tra'n gwrando ar yr adloniant. Yn Saesneg yn unig oedd yr adloniant a glywais i, (ymddiheuriadau os oedd mwy o Gymraeg yn ddiweddarach yn y dydd). Cyfle efallai i berswadio Y Tŷ Gwyrdd, yn ogystal a threfnwyr eraill digwyddiadau yn Ninbych, i ddefnyddio mwy ar y talentau Cymraeg gwych sydd gennym yn y dre.
Tu allan hefyd roedd arddangosfa creu basgedi, stondin fwyd a'r Bws Benthyg (gweler erthygl ar dudalen 18). Cyfle hefyd i gael cwpaned o win brwd (gwin gaeaf, gwin poeth) i gadw'n gynnes.
Gyda'r nos roedd noson o gerddoriaeth a bwyd yn y Neuadd. Unwaith eto caneuon gwerin Saesneg a Gwyddelig gafwyd. Cyfle wedi ei golli!



Stondin y Fenter Iaith


Rob, Nant y Felin, a'i brydau maethion rhad


Y Gweithdai


Paned o Win Brwd—be well!

## Gwyn eich byd

Gan fod hwn yn gyfnod ewyllys da rydwi wedi penderfynu peidio â bwrw fy mol y mis hwn.
Na, dydwi ddim am feirniadu'r cyfryngau am dd'eud "mynd i'r wal" wrth sôn am ryw gwmni yn mynd yn fethdalwyr, wedi mynd i'r gwellt a'r hwch wedi mynd drwy'r siop. Wedi'r cyfan mae'n rhaid i bob iaith ddatblygu dywediadau newydd on'd oes? Neu ai esblygu ydy'r gair dwi angen yn y fan hon?
Dydwi ddim wedi gweld hwch yn agos i'r dref hon heb sôn am weld un mewn siop. Ydach chi?
A'r unig adeg rydwi wedi gweld gwellt ar y Stryd Fawr ydy ar Ŵyl San Steffan pan fo'r rasus rowlio casgen yn Ninbych.
Wna i ddim beirniadu ychwaith y bobl hynny sy'n d'eud disgyn y platiau yn hytrach na d'eud gollwng y platiau, nac am dd'eud dydyn nhw byth wedi bod yn Nhregaron yn hytrach na d'eud nad ydyn nhw erioed wedi bod yno.
Wna i ychwaith ddim d'eud gair o gwbl am gyflwynwyr teledu sy'n gofyn cwestiynau hirwyntog am eu bod mor hoff o glywed eu lleisiau eu hunain.
A gwae chi os ydych yn disgwyl imi feirniadu pobl ar safleoedd cymdeithasol nad ydyn nhw'n cymryd amser i gywiro'u sillafu o eiriau digon cyffredin.
Yn bendant, dydwi ddim am feirniadu pobl sy'n mynnu parcio ar y Stryd Fawr yn y dref hon mewn mannau a ddynodwyd ar gyfer bysiau a llwytho a dadlwytho. Wedi'r cyfan, dydyn nhw ddim yn gwybod mai eu gweithred nhw sydd yn achosi tagfa ar yr allt yn Stryd Y Dyffryn.
Ac yn olaf wna i ddim beirniadu unrhyw un sydd wedi mynd i dalu am fwyd mewn bwyty ac yn darganfod nad ydy o'n cofio'i rif pin.
Mae fy nghydymdeimlad yn fawr gydag ef................. gan mai fi oedd y person hwnnw.
Ond ni fu'n rhaid imi dreulio gweddill y noson yn golchi llestri. Daeth gwaredigaeth o rywle. Ar y funud olaf un fe gofiais y rhifau, a thrwy hynny osgoi camdreuliaid y noson honno.
Oes, mae eisiau ceiliog glân i ganu.

*Stan Lyall*

WIRELESS IN WALES
GWEFR HEB WIFRAU

I ymweld â'r Amgueddfa

cysylltwch â

gwybod@gwefrhebwifrau.cymru

i drefnu apwyntiad.

Amgueddfa Gwefr heb Wifrau
Wireless in Wales Museum

## AMGUEDDFA RADIO

Gwefr heb Wifrau

Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

**Darlith**

Bu Geraint Jones, awdur, cerddor ac un o brif arweinwyr Canolfan Hanes Uwchgwyrfai, Pen Llŷn yn sgwrsio â ni yn ddiweddar am **Y Tri Cyprian**. Tair hanes go wahanol, ond merthyrdod neu aberth o ryw fath yn cysylltu'r dair.

Sant o Ogledd Affrica oedd Cyprianus a aned yn Carthage yn y flwyddyn 190. Roedd yn dwrnai ac yn athro, ond pan oedd yn 56 oed cafodd dröedigaeth i Gristnogaeth a gwerthodd ei eiddo er mwyn helpu'r tlodion. Roedd yr Ymerodraeth Rhufeinig yn erlid Cristnogion a chondemniwyd Cyprianus i farwolaeth, a dienyddiwyd ef ar Fedi'r 4ydd yn y flwyddyn 258. Teimlai Cyprianus ei bod yn fraint i fod yn ferthyr dros ei Arglwydd; "I Dduw bo'r diolch," meddai. Mae nifer o eglwysi yn y DU yn dwyn ei enw er cof, gan gynnwys yn y Rhath, Caerdydd.

Llong oedd yr ail Cyprian, y SS Cyprian, a adawodd borthladd Lerpwl ar 13/10/1881 yn cario llwyth cymysg o gynnyrch melinau cotwm gogledd Lloegr i Genoa. Cododd y gwynt i fod yn gorwynt wrth i'r llong hwylio trwy Fae Caernarfon am 3.00 y.b., a byrstiodd un o diwbiau un boilar. Am 8.30 y.b. torrodd y llywiwr, ac wedyn cogsen, oedd yn golygu bod rhaid dibynnu ar un peiriant yn unig. Llifai'r dŵr i mewn oherwydd bod y pympiau wedi tagu, a diffoddodd y tân fel nad oedd pŵer o gwbl. Gollyngwyd yr angorion, ond torron nhw. Roedd y llong yn nesu at greigiau'r lan, ger Edern, Llŷn a gorchmynnodd Capten Strachan "Pawb dros ei hun". Yn y cyfamser, daeth bachgen 12 oed i'r golwg, oedd wedi bod yn cuddio rhwng y sachau ar y llong, a rhoddodd y Capten ei wregys achub iddo fo. Tarodd y Cyprian y creigiau a throi drosodd gan foddi 19 o griw, gan gynnwys y Capten oedd wedi aberthu ei fywyd er mwyn y bachgen. Bu 8 o'r criw fyw a dychwelyd i Lerpwl ar ôl wythnos; claddwyd 18 mewn bedd petryal yn Eglwys St. Edern; claddwyd y Capten yn Lerpwl. "Anffawd" oedd y dyfarniad swyddogol am y llongddrylliad yn hwyrach.

Roedd bad achub Porthdinllaen wedi methu mynd allan i geisio achub morwyr yr SS Cyprian ar 14/10/1881 ac oherwydd bod glannau Gogledd Cymru mor beryglus penderfynwyd bod angen ail fad achub yn yr ardal. Clywodd Mrs. Lily Noble o Henley on Thames am hanes y SS Cyprian a phrynodd gwch newydd i'r bad achub am £800 er cof am Capten Strachan. Enw'r cwch newydd oedd Cyprian. Lansiwyd y cwch yn Henley on Thames a theithiodd ar y trên i Gaernarfon yn Ebrill 1883. Yn Rhagfyr 1883, lansiwyd y Cyprian, efo criw dibrofiad, i fynd i gynorthwyo'r llong Lady Hinks mewn storom nerth 10. Cododd ton anferth y Cyprian a'i droi wyneb i waered a thaflu'r rhwyfwyr i'r dŵr. Gan eu bod yn gwisgo gwregysau corcyn, achubwyd y criw ond roedd y cwch newydd yn ddarnau. Dyna'r unig dro i'r Cyprian fod allan ar y môr.



**Noson Gwis**


Mwynhaom Noson Gwis lwyddiannus o dan law Martyn ar Hydref 29ain.

**O'r casgliad**



Dyma'r Philips 834A, derbynnydd radio oedd yn medru derbyn mewnbwn o gramoffon, yn ogystal â derbyn darllediadau radio. Roedd yn cael ei ddefnyddio fel mwyhadur ar gyfer chwarae recordiau ac roedd yn bosib hefyd i drosglwyddo'r sain i ystafell arall trwy ddefnyddio seinydd estyn. Mae nifer o'r seinyddion yma yn y casgliad yn yr Amgueddfa.

**Digwyddiadau'r dyfodol**




Ar 09/12/2022 bydd Dr. D. Ben Rees, Lerpwl, yn sgwrsio am **Hanes Gwasg Gee**. Roedd Gwasg Gee yn Ninbych yn un o brif weisg Cymru am ran helaeth o ddwy ganrif, ac yn enwog fel cyhoeddwr Y Faner, Y Gwyddoniadur Cymreig a llwyth o lyfrau o bob math. Sefydlwyd y wasg yn 1808 gan y Parchedig Thomas Jones yn Rhuthun, ac yn 1809 symudodd i Ddinbych; cymerodd Thomas Gee drosodd yn 1813. Ar ôl ei hoes aur daeth dirywiad hir yn ail hanner yr ugeinfed ganrif er gwaethaf ymdrechion arwrol y nofelydd Kate Roberts, perchennog y cwmni o 1946 ymlaen. Bu farw Dr. Kate yn 1985, a bu farw Gwasg Gee yn 2001. Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan **Cwmulus** neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru

**Ymweld â'r Amgueddfa**

Yn ystod y gaeaf, pan fydd yr Amgueddfa ar gau, bydd yn bosib trefnu apwyntiad i ymweld â'r Amgueddfa ar unrhyw adeg. Cysylltwch â gwybod@gwefrhebwifrau.cymru Croeso cynnes i bawb.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i dîm a darllenwyr Y Bigwn!

Diolch i chi am eich cefnogaeth.

# Robert Everett - Arwr Angof?


Yn ôl un o bapurau dyddiol Cymru yn eu rhifyn a gyhoeddwyd ar Hydref 22ain eleni, "The long lost story of a Welsh abolitionist preacher, who helped fleeing slaves in America, has been brought to light by an academic." Efallai fod enw'r Parchedig Robert Everett yn anghyfarwydd i nifer o ddarllenwyr y papur hwnnw ac i'r gohebydd, ond yn sicr dydy hynny ddim yn wir am drigolion Dinbych a'r cylch, yn enwedig aelodau Eglwys Annibynnol Lôn Swan, darllenwyr "Y Bigwn", aelodau'r Gymdeithas Gymraeg lleol a nifer o unigolion eraill. Yn sicr dydy ei hanes ddim wedi diflannu o'r cof yn Nyffryn Clwyd.

Dechreuais ymddiddori yn y gŵr hynod hwn, a anwyd yn Gronant (Llanasa yn ôl rhai), ger Prestatyn, ym 1791, tra'n gwylio'r gyfres "Cymru Rhyfel Cartref America" ar S4C yn 2004. Cyflwynwyd y gyfres gan yr Americanwr Dr Jerry Hunter ac roedd sawl cyfeiriad at Robert Everett cyn i mi sylweddoli iddo fod yn weinidog yng Nghapel Lôn Swan rhwng 1815 ac 1823, cyn ymfudo i'r Unol Daleithiau i ofalu am Eglwys Gymraeg Utica. Cyhoeddodd Dr Hunter y gyfrol "Llwch Cenhedloedd" i gyd-fynd â'r gyfres deledu, ac fe enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn am 2004.

Daeth mwy o sylw i Robert Everett yn 2006 mewn cyfres deledu arall gan Jerry Hunter ar S4C o'r enw "America Gaeth a'r Cymry". Yn ôl gwneuthurwyr y gyfres ar y pryd, Everett "... oedd y dyn wnaeth fwy na neb i berswadio'i gyd-Gymry yn America i ddiddymu caethwasiaeth. Roedd Robert Everett yn un o sylfaenwyr The New York Anti-Slavery Society, ac am flynyddoedd bu'n defnyddio'r wasg Gymraeg yn America i ddadlau'n frwd dros achos y caethweision."

Yn 2007 cyhoeddodd Dr Hunter "I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd" sydd, yn ôl gwefan Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor, yn "rhoi ar gof a chadw hanes y gweinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych a ddaeth yn y man yn un o brif ddiddymwyr y fasnach caeth wasanaeth yn America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg."

Dyma oedd gan y Parchedig Dafydd Owen, un o blant Lôn Swan, i ddweud amdano yn ei lyfr "Gwylio Gorymdaith (Dathliad dau gant a hanner Capel Lôn Swan, Dinbych: 1742-1992)". "Bu'n gweinidogaethu'n ffyddlon a llwyddiannus am wyth mlynedd ... Priododd



Robert Everett ag Elizabeth, merch Thomas Roberts, Rossa Fawr, diacon yn Lôn Swan fel ei fab ar ei ôl, a gŵr y bu i'w deulu gyfrannu'n helaeth tuag at ffyniant Ymneilltuaeth yn Nyffryn Clwyd. Dywedir fod Mrs Everett yn un o arloeswyr yr Ysgol Sul yn Ninbych ..." Cyflawnodd Everett cymaint yn ei fywyd a dim ond crafu'r wyneb mae'r erthygl hon. Bu farw ym 1875 ac fe gladdwyd yn Remsen, Talaith Efrog Newydd.

Ond o'r diwedd daeth cydnabyddiaeth teilwng iddo yn ei wlad fabwysiedig yn dilyn ymgyrch gan y Saint David's Society of Utica a'r Remsen Steuben Historical Society. Cafodd ei enw ei ychwanegu i'r National Abolitionist Hall of Fame and Museum mewn seremoni rhwng 21-23 Hydref eleni. Mae'r amgueddfa yn Peterboro, Efrog Newydd, yn "oriel genedlaethol o anfarwolion y rhai fu'n ymladd caethwasiaeth". Yn ystod y seremoni cafwyd anerchiad gan yr Athro Hunter drwy gyfrwng fideo ac roedd nifer o ddisgynyddion Everett yn bresennol. Yn ogystal â hyn mae safle eglwys y Parchedig Everett newydd ei chofrestru'n safle hanesyddol gan Dalaith Efrog Newydd ac mae'r Remsen Steuben Historical Society wedi creu arddangosfa amdano yn Utica.

"The long lost story of a Welsh abolitionist preacher"? Nid i bawb mae'n amlwg. Dywedodd Ifor ap Glyn, cynhyrchydd a chyfarwyddwr "America Gaeth a'r Cymry", fu'n byw yn Ninbych am gyfnod, fod Robert Everett yn "un o arwyr angof Cymru". Yn dilyn y digwyddiadau diweddar yn America, mawr obeithiaf nad yw'n angof mwyach.

John Davies

Cyfuniad yw'r erthygl uchod o rannau o erthyglau a gyhoeddwyd gyntaf yn Y Bigwn mis Gorffennaf 2004 a Mai 2008 ynghyd â'r datblygiadau diweddaraf o'r Unol Daleithiau am Robert Everett.

Os hoffech gael gwybod mwy am ei waith draw yn America, rwyf newydd ddod ar draws darlith i'r Oneida Historical Society gan Ted Engle o'r St David's Society ar https://www.youtube.com/watch?v=nnl4DXrCbMg




Parch Graham Floyd a Maer Dinbych, ar y pryd, y Cynghorydd Colin Hughes yn dadorchuddio cofeb i Robert Everett ar wal y Capel yn 2008.

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd, Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
01745 812184


# Y Bws Benthyg




Efallai fod rhai ohonoch wedi gweld y Bws Benthyg yn Eisteddfod yr Urdd adeg ei hymddangosiad cyntaf cyhoeddus, yn ystod digwyddiadau eraill neu pan fydd yn ymweld a Dinbych yn wythnosol yn ei lleoliad rheolaidd ger yr Hwb.

Os nad ydych wedi ymweld â'r bws yna efallai nad ydych yn gwybod llawer amdani. Cynllun ydi'r Bws Benthyg i alluogi y cyhoedd i fenthyg pob math o offer am brisiau rhesymol dros ben. Llawer rhatach na fyddai llogi yr eitemau yn fasnachol ac mae ganddynt lawer na fyddech yn eu gweld mewn siopau llogi megis offer ar gyfer babanod – perffaith i neiniau a theidiau pan fydd wyrion neu wyresau yn ymweld am gyfnodau byr.

Mae'r eitemau yn amrywiol iawn. Mae yna offer gwaith coed, garddio a chrefftau, beiciau, offer ar gyfer babanod a phlant bach, adloniant cartref, coginio ac ati.








I fenthyg eitem rhaid ymaelodi'n gyntaf ac yna gallwch logi eitem am wythnos neu fwy. Mae'n bosibl hefyd benthyg heb ymaelodi ar gyfer defnyddwyr achlysurol. Mae'r prisiau yn cychwyn am tua £1 am offeryn llaw syml ac yn codi i £5 am ddril syml, £10 am offer trydanol mwy cymhleth ac ambell beth mwy drud.

Bydd y bws yn ymweld a Hwb Dinbych bob Dydd Iau o 10yb tan 1yh. Beth am ymweld a'u gwefan ar https://bwsbenthyg.lend-engine.com/ neu sganio'r cod QR yma.

Er fod modd newid iaith y wefan i'r Gymraeg ymddengys nad ydi'r cynnwys wedi ei gyfieithu eto. Gobeithio y byddant yn cywiro hyn yn fuan.




MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Margaret Myfanwy Jones

*Rhan o Deyrnged i Margaret Myfanwy Jones, Dolawel, ddiwrnod ei hangladd Ddydd Iau 17eg Tachwedd*

Ganwyd Mam fis Chwefror 1927, ym Meifod, Saron - mae Meifod wedi bod yn gartre' i'r teulu ers dros ddau gan mlynedd bellach. Ym Meifod cafodd mam ei bedyddio, ac nid yng Nghapel Saron, lle roedden nhw fel teulu yn aelodau ffyddlon. Roedd hi'n chwaer i Defi, Alice, Janet, Dwalad, Tomi a Dilys. Felly, er y gwaith llafurus, a phob un yn gorfod gwneud ei ran, roedd 'na ddigon o fwrlwm hwyliog ar y fferm.

Fel y plant eraill i gyd, daeth hi'n amser i mam fynd i Ysgol Prion, a mwynhau ei hamser yno ymhlith ei ffrindiau. Ond chafodd hi fawr o gyfle am addysg bellach gan fod yr Ail Ryfel Byd wedi torri allan. Yn ôl yr arfer mewn teuluoedd mawr, anfonwyd mam i helpu ei hewythr a'i modryb ar fferm Llwyn Banc a gadael teulu, ffrindiau a chymdeithas glos Capel Saron yn bymtheg oed. Ond, buan iawn yr ymgartrefodd, a dechrau ymdoddi i mewn i'r gymdeithas newydd, o gwmpas Capel Brwcws. Yn wir, roedd hi wedi llygadu bachgen reit ddel efo gwallt brown, oedd yn byw ar fferm Eglwyswen - Huw Wyn Jones. Blodeuodd y berthynas, ac, ar ôl diwedd y Rhyfel, priodwyd Fanwy a Huw yma yng Nghapel y Fron -doedd gan Gapel Brwcws ddim trwydded amser hynny.

Ddiwrnod y briodas, doedd yr unig ffotograffydd yn Ninbych, yr hen Thompson, ddim ar gael. Felly, mi ddaeth i Eglwyswen wedi'r mis mêl byr yn Aberystwyth, i gael tynnu eu lluniau. Yn ddiweddar, mi ddatgelodd mam bod dad, Taid Dolawel, wedi rhuthro allan y tro cyntaf yn ei siwt orau, ond y dal i wisgo'i slipars!!!

Capel y Brwcws fu'n llywio ei bywyd hi wedyn am bron i 80 mlynedd- yn feithrinfa i'w Christnogaeth, o fewn cymdeithas glos y capel. Cyflwynwyd hi â Medal Gee am ei ffyddlondeb i Ysgol Sul y Brwcws.

Ga' i yma ddiolch o galon i aelodau'r Brwcws am bob cyfeillgarwch a charedigrwydd gafodd mam - bob lifft, ymweliad, a galwad ffôn - diolch o galon i chi i gyd.

Dyma le buodd mam wedyn, yn gefn i dad fel blaenor, yn athrawes ysgol Sul, ac yn bwrw ei hun i mewn i weithgareddau Cymdeithas y Capel. Roedd hi'n gwbl ymroddedig i ddysgu'r Rhodd Mam a darnau eraill i genedlaethau o blant, a byddai sawl practis adref yn Dolawel, ar gyfer 'heileit' y flwyddyn - sef Yr Ŵyl Ysgol Sul. Roedd ganddi dalent hefyd i adrodd darnau hir ei hun, ac roedd hi wrth ei bodd yn canu mewn parti neu gôr, gyda'i llais soprano swynol. Yn gynnar yn y pumdegau, symudodd mam a dad o Eglwyswen i Dolawel, efo Mair, Ann, Helen a Menna, ac, yn eu tro, daeth Llinos a Wyn i gwblhau 'Teulu Dolawel'. Cawsom fagwraeth dda, yn seiliedig ar werthoedd Cristnogol, ac yn llawn hwyl a phrysurdeb tyfu fyny ar fferm Gymreig, draddodiadol. Roedd hi'n fam ofalgar iawn, yn feddylgar a theg, a phob tro'n poeni am rywun ohonon ni, a'i chariad fel blanced gynnes yn lapio amdanom.

Wedi i'r plant hedfan y nyth, cafodd dad a mam fwy o amser i hamddena a mwynhau bywyd i'r eithaf. Cawsant dripiau difyr iawn a llawer o hwyl gyda Peter Evans, a Gwyn Matthews, a'r Parch Wayne Roberts. Rhai o'r uchafbwyntiau oedd cael mynd i weld Drama'r Dioddefaint yn Oberammergau, a hefyd, i weld Gwlad yr Iesu drosti'i hun- yr holl lefydd sanctaidd oedd mor gyfarwydd iddi! Mi fuodd hefyd yn sôn am hydoedd wedyn am y wefr o gael reid ar gamel ar y trip hwnnw!

Cafodd y ddau ymuno â Chymdeithas gynnes Maes y Plwm, a chael llawer profiad gwerthfawr a hapus yno. Yn y blynyddoedd olaf, roedd hi wrth ei bodd yn cael reid i fyny i Saron gan Emyr yn yr enwog fws mini Cart y Plwyf.

Roedd hi'r un mor hapus yng nghwmni Cymdeithas Merched y Fron a'r Brwcws, yn mwynhau sgwrs neu noson gartrefol yn y Festri. Roedd cael paned wedyn a rhoi'r byd yn ei le yr un mor bwysig! A bob Nos Fercher cynta'r mis, doedd wiw inni anghofio am gyfarfod Merched y Wawr yn Ninbych, a chyfle i gymdeithasu â ffrindiau yno. Roedd hi wrth ei bodd allan, yn gweithio yn yr awyr iach - edrych ar ôl yr ieir, bwydo'r moch, helpu dad efo'r defaid, a garddio. Roedd yr ardd yn bictiwr ganddi.

Cawsom ergyd drom ym marwolaeth dad, fis cyn yr Eisteddfod Genedlaethol yng nghaeau Kilford, 2001, ond, dangosodd mam gryfder ei chymeriad, a bu'n cynnal ysbryd y teulu efo gwên a gras yn ei phrofedigaeth.


Cafodd ddreifio'r car nes oedd hi bron yn 90, a chadw'i hannibyniaeth - yn mynd a'r plant i'r ysgol, mynd i'r capel siopa ac ymweld â'r teulu, a ffrindiau a chleifion. Ar ôl rhoi'r gorau i ddreifio, roedd rhaid newid patrwm, ond byddai hi'n fodlon iawn derbyn mwy o'n cymorth ni. Mi fyddai bob un ohonon ni yn ein tro yn cael croeso mawr, a'i hwyl a'i hiwmor iach yn 'sgafnu bob sgwrs. Yn unol â'i chymeriad, chlywson ni'r un gwyn drwy'r pandemig, dim ond addasu eto, a derbyn bod rhaid cadw pellter, a chynnig y jêl i'r dwylo wrth i ni fentro at y drws. Cafodd gysur mawr, fel erioed, o wrando ar wasanaethau ar y radio ac ar y teledu, a byddai'n crynhoi neges pob pregeth yn ddi-feth. Doedd dim gwerth mynd i Dolawel bron pan fyddai'r Steddfod Genedlaethol, neu'r Urdd neu'r Ŵyl Gerdd Dant ar y teledu.

Dotiai ar ei hwyrion a'i hwyresau - 13 ohonynt, ac yn fwy fyth ar ei gor-wyrion - 19, hyd yma. Bob tro yn eu holi am y newyddion diweddara yn eu bywydau prysur.

Daeth taith bywyd mam i ben mor annisgwyl o sydyn i ni fel teulu. Ond, yn ystod y dyddiau ola' 'ma, ryden ni wedi cael amser i gyfrif ein bendithion. Er mai 'cledd â min yw claddu mam', gallwn ddathlu a diolch am ei bywyd o wasanaeth, ei ffydd, ei gwên barhaus a'i chymeriad annwyl. Fis Medi, collwyd y Frenhines, ond Fis Tachwedd, colled llawer mwy i ni oedd colli Brenhines Dolawel. Diolch amdani.

## Diolch

Dymuna Mair, Ann, Menna, Helen, Llinos a Wyn, a'u teuluoedd, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, sef Myfanwy Jones, Dolawel, Dinbych. Diolch am yr holl ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau, cacennau a blodau, ac am ymuno â ni i gofio a diolch am ei bywyd yng Nghapel y Fron, Dinbych fis Tachwedd. Gwerthfawrogwn hefyd y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am mam, tuag at Banc Bwyd Dinbych a Tŷ Gobaith. Diolch yn fawr iawn.



# Ysgol Glan Clwyd

### Cyngor Ysgol

Cafodd y Cyngor Ysgol hanner tymor prysur iawn. Wedi i'r prif swyddogion rhoi cyflwyniad i bob disgybl am bwrpas a strwythur y Cyngor, aethpwyd ati i ethol y cynrychiolwyr dosbarth. Gyda bron i 90 o'n disgyblion yn cael eu hethol i'r Cyngor dyma gyfle i ganran arwyddocaol o'n disgyblion i gyfrannu i broses bwysig Llais y Disgybl. I gloi'r hanner tymor, teithiodd pedwar o arweinyddion y Cyngor i Langollen i gyfarfod sirol y Cynghorau Ysgol



Rhai o aelodau'r Cyngor Llawn yn cyfarfod i gynnig llais y disgybl i faterion YGC sy'n allweddol iddynt

### Wythnos Dathlu Darllen

Cynhaliwyd wythnos o ddathlu darllen er mwyn rhannu gyda'n disgyblion y pleser o ymgolli mewn llyfr. Fel rhan o'r dathlu, cafodd pob disgybl docyn llyfr gwerth £7 yn rhodd gan y Llywodraeth, a chyfle i'w wario yn y stondin lyfrau dros dro a sefydlwyd. Bu'n wythnos a fu'n fwrlwm o weithgareddau gyda staff yn rhannu eu dewis o hoff nofel, a'u profiad fel darllenwyr. Coronwyd yr wythnos gyda diwrnod 'Mewn Cymeriad' gyda'r staff yn gwisgo fel cymeriad o lyfr, a sesiwn amser cinio lle cafodd y disgyblion ddifyrrwch wrth wylio sioe'r staff a chyfle i bleidleisio dros y 'cymeriad' gorau.




Staff Ysgol Glan Clwyd wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr



### .Noson Agored

Roedd bwrlwm o brysurdeb ymhob rhan o'r ysgol ar Hydref 6ed wrth inni agor y drysau ar gyfer disgyblion bl5 a 6 a'u rhieni. Roedd yr arlwy gan y gwahanol bynciau yn amrywiol ac eang, gyda chyfle nid yn unig i gael blas ar gynnwys y pynciau, ond blasu llawer o ddanteithion hefyd megis cacennau wedi'u paratoi ar y pryd gan bl10 yn yr adran Dechnoleg. Un o'r uchafbwyntiau oedd cael cyfarfod â llo bach newydd -anedig yn yr adran Bywydeg!





### Clwb Marchogaeth

Cafodd y Clwb Marchogaeth gyfle i ymarfer sgiliau neidio gyda'u merlen mewn sesiwn bore Sadwrn wedi'i threfnu gan yr adran Addysg Gorfforol yng nghanolfan merlota Hafod, Trefnant. Yna mewn sesiwn ddiweddarach, cynhaliwyd cystadleuaeth neidio rhyng-ysgol gyda disgyblion Coleg Myddleton yn ymuno ag aelodau Clwb Marchogaeth YGC yn y gystadleuaeth.



### Gweithdy Microbits 21/10/22

Cafodd disgyblion blwyddyn 7 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy Mircobits gan EESW. Yn ystod y gweithdy roedd y disgyblion yn cydweithio er mwyn rhaglennu MircoBit i reoli robot i symud. Bu pawb wrth eu boddau yn arbrofi gyda gwahanol ddulliau o raglennu.



### Clwb Natur

Braf oedd gweld nifer brwdfrydig o flwyddyn 7 ac 8 yn ymuno â'r clwb natur newydd. Mae'r aelodau newydd wedi bod yn brysur yn dylunio eu bathodynnau ac wedi bod yn trafod syniadau am y flwyddyn i ddod. Mae'r clwb hefyd wedi bod yn cynllunio ar gyfer cynnal stondin gacennau i godi arian i'r elusen Enfys a hefyd i ariannu eu bathodynnau.



**Offer Fable**

Mae'r offer Fable newydd wedi cyrraedd yr adran Technoleg Digidol ac mae'r disgyblion wedi cael cyfle i arbrofi gan rhaglennu y robots Fable i wneud gwahanol symudiadau. Dros y wythnosau nesaf bydd Clwb Fable yn cychwyn i'r pencampwyr digidol.



**Cogurdd**

Roedd Dydd Iau 21ain o Hydref yn ddiwrnod cyffrous yn Ysgol Glan Clwyd oherwydd fod rownd cyntaf cystadleuaeth Cogurdd yn cael ei gynnal. Roedd Lydia Davies a Tesni Jones o flwyddyn 9 yn gorfod paratoi 'salad swper dwper' ac Erin Plumb o flwyddyn 10 yn gorfod paratoi byrger o'i dewis hi.
Roedd y safon yn arbennig o uchel a'r bwyd yn hynod o ddeniadol a blasus. Llongyfarchiadau a phob lwc yn y rownd nesaf.



**Gwaith Maes Daearyddiaeth**

Cafodd disgyblion Daearyddiaeth blwyddyn 11 brofiad o Ddaearyddiaeth yn y maes wrth ymweld a thraeth Cricieth. Roedd yn gyfle ardderchog iddynt brofi effaith argloddiau a waliau llifogydd a gweld prosesau sy'n cael eu dysgu yn y dosbarth yn y byd go-iawn!
Cafwyd ail-ddiwrnod llwyddiannus yn Nyffryn Clwyd wrth astudio anghyfartaleddau drwy gymharu mynediad i wasanaethau yn Ninbych, Henllan, Llanelwy a Prestatyn. Astudiwyd ansawdd yr amgylchedd, llif cerddwyr, y math o wasanaethau a pha mor hygyrch yw'r ardal. Roedd yn bleser cael profi Daearyddiaeth allan yn y maes unwaith eto.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Braf oedd cael ail-gydio yn un o draddodiadau'r ysgol unwaith eto. Cafwyd eitemau cerddorol a darlleniadau hyfryd - yn cynnwys gwaith gwreiddiol gan Ava Williams, Bl.9 a Chôr Blwyddyn 7 yn coroni'r cyfan o dan arweiniad Mr Gethin Morgan, Arweinydd Cynnydd y flwyddyn.

**Cyngerdd a Gweithdy 'Gwneud Sŵn'**

Cafodd holl ddisgyblion Bl.7, 8 a 9 gyfle i fynychu cyngherdd hwyliog gan wasanaeth Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych. Cafwyd cyfle i fwynhau cerddoriaeth amrywiol gan gerddorion proffesiynol yn fyw o lwyfan y Theatr yn yr ysgol, gydag ambell wyneb cyfarwydd yn ymuno! Diwrnod i'w gofio yn sicr a chyfle i ddathlu a hyrwyddo cerddoriaeth. Mae'r ysgol yn cydnabod fod dysgu chwarae offeryn yn cynnig llawer – datblygu hyder, cryfhau'r cof ac ehangu cylch cymdeithasol dim ond i enwi rhai. Felly, mae cyfle arbennig i ddisgyblion blynyddoedd 7 ac 8 wedi codi! Cofiwch fanteisio! Cafodd holl ddisgyblion TGAU, UG a SU hefyd gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai buddiol yn ystod y dydd. Profiadau gwerthfawr iawn i'n disgyblion.

**Eisteddfod Llandyrnog**

Llongyfarchiadau mawr i holl lenorion yr ysgol a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Llandyrnog yn ddiweddar.

**Llenyddiaeth Bl7-9**
1af - Lena Pierce ac Ava Williams
2il - Miriam Jones
3ydd - Elain Ellis

**Llenyddiaeth Bl10-13**
1af - Siriol Ousey
2il - Mabon Roberts
3ydd - Efa Celyn Roberts

**Awydd swydd newydd?**

Edrych am her newydd neu wedi cael digon ar weithio o adref, awyddus i ddod i weithio mewn awyrgylch gartrefol, llawn bwrlwm, Cymraeg? Mae gennym hysbysebion allan ar y funud ar gyfer Derbynnydd/Arolygwyr Arholiadau a Chymorthyddion. Cysylltwch â'r ysgol am sgwrs anffurfiol 01745 582611

**Wythnos Bioleg Cenedlaethol**

Cafwyd nifer o weithgareddau i ddathlu wythnos Bioleg cenedlaethol gan gynnwys cwis, ffilm a dyraniad pen mochyn. Braf oedd gweld bwrlwm a chefnogaeth gan y disgyblion i'r maes pwysig iawn yma.

**Addysg Gorfforol**

Llongyfarchiadau i'r merched canlynol ar gael eu dewis i dîm pêl-rwyd Sir Ddinbych o dan 14, o dan 16 ac o dan 18.
Leila Harrison
Rhiannon Gruffydd
Mared Hargraves
Cerys Thomas
Elin Griffith, Abbie Filmer
Eryn Williams,
Lowri Gruffydd
Lia Edwards
Erin Baxter, Alaw Jones
Llongyfarchiadau hefyd i'r merched canlynol ar gael eu dewis i dîm pêl-droed Sir Ddinbych o dan 13.
Efa Howatson
Laylah Town

CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk
Cyfrifiaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH
Siop lleol yn gwerthu cardiau, anrhegion a phethau vintage
DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33


# Ysgol Twm o'r Nant

Wedi seibiant y hanner tymor mae 'r plant wedi dod yn ôl i'r ysgol ac rydym yn barod i ddechrau ymarfer at ein sioeau Nadolig. Braf yw gallu croesawu rhieni yn ôl i wylio unwaith eto a bydd bwrlwm y Nadolig yn gyffro i gyd yn yr ysgol unwaith eto. Gobeithio y cawn ymweliad gan Sion Corn hefyd.

Llongyfarchiadau mawr i Mr Steffan Parry am briodi Zoe dros y gwyliau hanner tymor. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd i chi yn eich bywyd priodasol a mwynhewch eich mis mêl pan y daw.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Miss Catrin Davies ar roi genedigaeth i fachgen bach. Rydym i gyd yn edrych ymlaen i Hugo a Miss Davies ymweld a'r ysgol er mwyn i ni gyd gael cwtsh.

Roedd hi'n amser cynnal cystadleuaeth Cogurdd unwaith eto gyda ambell i gogydd brwd o flynyddoedd 4,5 a 6 yn cystadlu. Eu tasg oedd i lunio a gwneud brechdan flasus. Cafodd y beirniad wledd yn blasu yr holl frechdanau a daeth tair merch i'r brig. Da iawn Mati Nel, Martha a Myfi. Llongyfarchiadau mawr!

Bu dau o blant yn cynrychioli yr Ysgol yn seremoni Sul y cofio ger y gofeb yn Ninbych. Cyflwynwyd rith ar ran yr ysgol a chafwyd seremoni arbennig.




*Cystadleuaeth Cogurdd*



*Cogurdd - Mati Nel, Martha a Myfi ar y brig*



*Cynrychiolaeth yn seremoni Sul y Cofio*



*Malos Melus - Blasus iawn!*

**Uned dan 5**

Hyfryd oedd cael perfformio i rieni yn ein gwasanaeth Diolchgarwch yng nghapel y Fron, Dinbych ar yr 20fed o Hydref. Cawsom berfformiad bendigedig gan y plant Derbyn wth iddynt ganu 'Pwy wnaeth y sêr uwchben' a 'Diolch, Diolch Iesu'. Da iawn chi blant!

Roedd cyffro mawr yn yr uned dan 5 wrth i ni ddychwelyd ar ôl ein gwyliau hanner tymor wedi i bawb fwynhau noswyl tân gwyllt. Ein thema am yr wythnos gyntaf oedd tân gwyllt! Sôn am hwyl a gawsom yn gwneud creu rocedi siapiau 2D yn ein gwersi mathemateg ac yna ymarfer ysgrifennu ein henw a disgrifio roced yn ein gwersi iaith. Cawsom wneud sbarclyrs siocled wrth ddysgu am solid a hylif ac yna cawsom flasu ein gwaith!

Yn yr ardal tu allan cawsom baentio ar raddfa fawr a thostio malos melys ar y tan wrth ddysgu am Guto Ffowc.

Rydym wrthi yn brysur yn paratoi ar gyfer ein sioe Nadolig ac yn edrych ymlaen at rannu'r hanes gyda chi yn fuan.

Llongyfarchiadau mawr i Gwen Toure Jones am ddod yn gyntaf yn nghystadleuaeth arlunio Eisteddfod Llandyrnog.





*Paentio yn yr ardal tu allan*



*Paratoi sbarclyrs siocled*



*Rocedi siapiau 2D*



*Creu rocedi siapiau 2D*









*Taith yr Uned dan Saith*

**Uned dan 7**





*Mwynhau yn y Jambori*

Bu'r tri dosbarth ar daith difyr iawn o amgylch tref Dinbych ar ddechrau ein thema newydd 'Ein Milltir Sgwâr'. Roedd y plant yn frwdfrydig ac yn fyrlymus iawn wrth i ni gerdded i fyny Stryd y Dyffryn ac o amgylch y dref a sylweddoli cymaint oedd i'w weld o'n cwmpas. Gwelsom Theatr Twm o'r Nant, Cofeb Dr.Evan Pierce, Llyfrgell a Neuadd Y Dref, Y Castell, Tŷ Kate Roberts a llawer mwy. Rydym yn edrych ymlaen i ddysgu mwy am yr holl bethau difyr sydd ar ein stepen drws.
Roedd pawb yn yr Uned wedi wir fwynhau Jambori Cwpan y Byd yr Urdd yn ddiweddar hefyd, cyfle gwych i ddathlu Cymreictod a joio'r holl ganu a dawnsio yn y Gymraeg gyda Dafydd Iwan a holl ysgolion Cymru.




**Uned dan 9**

Fel clo i'n thema Y Goedwig wyllt aethom am dro i weld yr holl goed a byd natur sydd o'n cwmpas. Mwynhaodd y plant yn fawr a chafwyd bore llesol yng nghanol y goedwig.

Ein thema y hanner tymor yma yw Cymru yn Qatar ac rydym yn hynod gyffrous o gael dilyn tîm pêl-droed Cymru yng nghwpan y byd. Daeth Gethin Rogers atom i ddysgu ychydig o sgiliau pêl-droed. Roedd pawb wrth eu boddau yn cael arbenigwr i fewn i'w dysgu ac ambell un bron iawn yn barod i chwarae i dim pêl-droed Cymru erbyn hyn!!

Braint ac anrhydedd oedd cael croesawu cyn aelod o dim pêl droed Cymru a'r sylwebydd Malcolm Allen i'r ysgol. Cawsom ei hanes a cawsom wybod mai ei freuddwyd pan yn ifanc oedd cael bod yn bêl-droediwr, gyda dyfalbarhad a balchder tuag at yr iaith Gymraeg mae o wedi cyrraedd lle mae o heddiw. Cafodd y plant gyfle i sylwebu gyda Malcolm Allen ac yna rhoi tro ar geisio sgorio goliau o'r smotyn yn ei erbyn. Roedd hi'n fore arbennig a'r plant i gyd wedi mwynhau y profiad anhygoel yma. Edrychwn ymlaen i'w weld eto gan ei fod wedi addo dod yn ôl i'r ysgol i ddangos cwpan y byd pan fydd Cymru wedi ennill!! Mae pawb yn croesi bysedd ac yn dymuno yn dda i dim pêl droed Cymru allan yn Qatar ac i Malcolm Allen sydd yno yn sylwebu.

Mwynhaodd y plant ddysgu am y lliwiau gwahanol o'r blodyn pabi sydd ar gael i gofio am yr rhai a fu yn brwydro yn yr rhyfeloedd. Crëwyd pabi coch, piws a gwyn gan bawb yn yr uned a cafwyd 2 funud o amser i feddwl am yr rhai a fu'n rhyfela drosom ni yn ystod y diwrnod.



Y Goedwig




Hwyl Pêl-droed




Ymweliad Malcolm Allen




Pabi Coch ( a Gwyn a Phiws)

**Uned dan 11**

Cafodd y dosbarth fodd i fyw gan roi eu 'traed i fyny' y tymor yma wrth i ni gael gwers ar ymlacio gan Nia Jones. Roedd yr uned yn eu seithfed nef ac wedi cael y cyfle i glirio eu meddyliau er mwyn paratoi am y gwaith caled yn y dosbarth.
Roedd llawer o lwyddiant yma yn Ysgol Twm o'r Nant, yn enwedig gyda'r Traws Gwlad, llwyddodd yr ysgol i gipio'r darian ar gyfer y merched yn ogystal â'r bechgyn. Da iawn chi!!
Yn ogystal cafodd timau merched yr ysgol ambell i gem gyfartal gyda Fron goch. Cawsom lawer o hwyl! Son am hwyl! Roedden ni wrth ein boddau yn Jambori Cwpan y Byd, gyda llawer o ganu a dawnsio!
Fe ddaeth newyddion mawr i'r uned yn ddiweddar, gyda Mr Parry yn priodi! Er mwyn dathlu'r achlysur, cawson barti ac roedd car Mr Parry yn werth ei weld. Llawr o hwyl a sbri!



*Llwyddiant yn y Traws Gwlad*



*Dathlu Priodas Mr Parry*



*Addurno car Mr Parry*

ybigwn.cymru/ol
rifynnau

# Llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant

Braf iawn oedd gweld yr Ŵyl Gerdd Dant yn dychwelyd wedi ambell i flwyddyn. Roedd trigolion Bro Nansi wedi aros yn amyneddgar i weld yr Ŵyl yn cael ei gynnal.

Am y tro cyntaf eleni mi benderfynais i gystadlu ar yr Unawd Cerdd Dant a'r Unawd Alaw Werin dros 21 oed. Hoffwn gymryd y cyfle i ddweud llongyfarchiadau mawr i Siriol Elin, Abergele am ennill yr Unawd Cerdd Dant dros 21 oed.

Mi roeddwn innau yn ddigon ffodus o ennill yr Unawd Alaw Werin dros 21 oed. Roedd y darn gosod ar gyfer y gystadleuaeth, Can y Gaethes Ddu, yn ddarn heriol gan adrodd hanes Caethwas a oedd wedi rhoi genedigaeth i fabi a oedd yn cael ei gymryd oddi wrthi i'w werthu yn gaethwas hefyd. Yn ôl bob tebyg, Rowland Walter, bardd a chwarelwr o Flaenau Ffestiniog a ymfudodd i Vermont ym 1852/53 ysgrifennodd y geiriau, wrth iddo feirniadu creulondeb ac annhegwch y fasnach gaethweision y cyfnod. Y darn cyferbyniol a ddewisais oedd 'Mae Robin yn Swil', sef darn hwyliog yn sôn am siomedigaeth cariad Robin ei fod yn hynod o swil!

Roedd cael canu deuawd hefo fy chwaer Ela yn yr Ŵyl Gerdd Dant eleni yn atgof i'w drysori. Nid oeddem wedi cystadlu yn y Ddeuawd Cerdd Dant dros 21 oed o'r blaen – er ein bod wedi bwriadu gwneud lawer gwaith. Y geiriau oedd 'Nant yr Eira' gan Iorwerth Peate ar y gainc Cerrig Llwydion, ar osodiad Leah Owen. Rhaid dweud – er ein bod yn reit nerfus! – ein bod wedi mwynhau yn arw. Llwyddom i ddod i'r brig. Efallai rhown dro arni eto flwyddyn nesa!

Cyn gorffen, hoffwn ddiolch o galon i Leah Owen am ei hamser yn ein hyfforddi ac am wneud y gosodiad - mae'r ddwy ohonom yn hynod o ddiolchgar.

*Cadi Mars Jones*



Ela a Cadi

CLWB PÊL-DROED DINBYCH

Y tymor hwn, mae Tref Dinbych yn chwarae yng Nghynghrair Lock Stock Ardal Gogledd Ddwyrain, sef y drydedd haen o bêl-droed yng Nghymru. Mae'r rheolwr, Dewi Llion Jones wedi ychwanegu dau hyfforddwr newydd i'w dîm rheoli. Mae Matthew Jones a oedd yn rhan o'r clwb ychydig flynyddoedd yn ôl, wedi dychwelyd ynghyd â Kristian Pierce a ymddeolodd yn gynnar o bêl-droed yn dilyn anaf poenus i'w goes llynedd.

Mae sawl llofnodiad newydd wedi'u gwneud gan gynnwys Nathan Brown, cyn-chwaraewr Academi Manchester City. Chwaraeodd Brown i Airbus llynedd ac fe gafodd gynnig i arwyddo i Fae Colwyn y tymor yma. Ond, teimlodd y buasai Dinbych yn gweddu ei ragolygon gyrfaol yn well ac roedd y Clwb wrth eu boddau yn ei groesawu.

Dau arall sydd wedi ymuno yw'r efeilliaid Ben a Harry Lockley o Fwrdeistref Conwy, cefnwyr cryf sydd wedi ychwanegu dimensiwn newydd i gemau Dinbych. Mae Dan Parry-Jones wedi ymuno o Fae Colwyn ac yn profi i fod yn gefnwr canol cryf hefyd. Yng nghanol y cae, mae Jason Foulkes wedi ymuno o Lanelwy, sydd hefyd yn chwaraewr criced adnabyddus, a Sam Haddon, chwaraewr ifanc sydd wedi ymuno o Allt Felyd.

Dim ond saith gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae hyd yma, ond wedi pum buddugoliaeth, un golled ac un gêm gyfartal, maen nhw yn hanner uchaf y tabl gyda gemau mewn llaw dros yr arweinwyr Bangor 1876. Roedd rhai o'r buddugoliaethau yn cynnwys curo 6-2 yn erbyn Llandudno Albion a 5-0 yn erbyn Saltney.

Fe gyrhaeddon nhw ail rownd Cwpan Cymru ar ôl curo Llanrwst 6-1. Connahs Quay Nomads oedd eu gwrthwynebwyr nesaf, a hynny o flaen camerâu Sgorio S4C ym Mharc Canolog. Er i Ddinbych golli o 5-1, fe enillodd y capten Paul Fleming gôl y mis i Sgorio ym mis Hydref am ei gôl anhygoel yn ystod y gêm.

Mae Dinbych wedi cyrraedd 16 olaf Tlws FA ar ôl curo Rockspur Ford o 6-1. Cyrhaeddodd y tîm o dde Cymru'r rownd gynderfynol yn y gystadleuaeth llynedd. Sgoriodd Jake Walker dair gôl, ac un yr un i Nathan Brown, Ben Lockley a'r chwaraewr ifanc Ben Alliss sy'n ddiweddar wedi ei ddewis o garfan yr Ail Dîm.

Mae Parc Canolig hefyd wedi lletys gemau rhyngwladol yn dilyn llwyddiant y gemau dan 16 ym mis Ebrill. Ym mis Awst, chwaraeodd Cymru Dan 16 yn erbyn Sweden yn Nhwrnament Datblygiad UEFA ac wedi gêm gyfartal o 1-1, daeth Cymru i'r brig gyda chiciau o'r smotyn. Dau ddiwrnod yn ddiweddarach, enillodd yr un tîm dan 16 yn erbyn Denmarc gyda chiciau o'r smotyn cyn colli o 2-1 yn erbyn Gwlad Belg ar ôl wythnos arbennig ym Mharc Canolig.

Cafodd y Clwb y fraint wedi hyn o gynnal gemau Ewropeaidd UEFA Dan 19 ym mis Hydref. Daeth timau o Iwerddon, Hwngari a Gibraltar i chwarae ym Mharc Canolig a phob un yn canmol safon y cae chwarae a gallu'r Clwb i gynnal gemau rhyngwladol.

Mae'r Clwb bob amser yn edrych am wirfoddolwyr i helpu i redeg y Clwb. Rydym yn edrych am berson sydd â'r gallu i ysgrifennu erthyglau dwyieithog i'n rhaglenni a'n gwefan, yn ogystal â rhywun sydd ddigon hyderus i wneud cyhoeddiadau dwyieithog ar ddiwrnodau gêm. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788627819 neu Shon Powell ar 07768 383266.

Lluniau ar dudalen 31






J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA

## Swyddog Datblygu Rygbi Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Swyddog Datblygu Rygbi newydd Ysgol Uwchradd Dinbych - Aron Evans. Mae Aron yn aelod o garfan Hŷn Clwb Rygbi Dinbych ac wedi chwarae dros y Clwb ers iddo fod yn 8 mlwydd oed. Mae Clwb Rygbi Dinbych yn falch o gael Aron yn y swydd ac yn gobeithio y gall ddatblygu a hybu Rygbi o fewn Ysgol Uwchradd Dinbych a'r ardal leol.
Dymuniadau gorau yn dy swydd newydd gan bawb yng Nghlwb Rygbi Dinbych.
"Dw i'n hynod o gyffrous am y cyfle i weithio o fewn y gymuned leol ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr i ddod i chwarae i Glwb Rygbi Dinbych.
Mae'r dref yma yn golygu llawer i mi, a dw i'n edrych ymlaen at weld datblygiad y clwb a'r chwaraewyr am y blynyddoedd i ddod."

### Gêm Goffa Clwb Rygbi Dinbych 27/09/22

Bydd 27ain o Awst, 2022 yn mynd lawr yng nghyffiniau Clwb Rygbi Dinbych wrth i ni groesawu dros 700 o gyfeillion a theuluoedd i Gaeau Les Phillips. Roedd y Diwrnod Coffa yn gyfle i ni gyd ddod at ein gilydd i gofio am aelodau'r clwb sydd wedi marw dros y blynyddoedd diwethaf. Ymhlith y rhai yr oeddem yn eu cofio'n arbennig oedd llywyddion y gorffennol, cadeiryddion, trysoryddion, aelodau'r pwyllgor, stiwardiaid y clwb, aelodau staff, hyfforddwyr a chwaraewyr; heb os, yn eu ffordd arbennig iawn eu hunain, gwnaeth pob un ohonynt gyfraniadau hanfodol i esblygiad ein Clwb 45 oed.
I bwyllgor cymdeithasol CRD, o dan reolaeth Beth Jones, rydym yn ddiolchgar iawn am eich trefniadau ofalus a chynhwysfawr. Diolch yn arbennig hefyd i Rowland Phillips, Alan Bateman a Nick Williams am chwarae rhan hanfodol yn y Gêm Goffa a welodd Clwb Rygbi Dinbych yn curo'r tîm gwadd, Y Barbariaid o 33-17.
Wedi'r gêm cawsom y fraint o ganu ynghyd â Chôr Meibion Dinbych, canodd y Côr amrywiaeth eang o emynau poblogaidd. Parhaodd y digwyddiad yn hwyr i'r nos gyda'r canwr lleol Martyn Peters yn diddanu pawb.
O achos llwyddiant y diwrnod, rhoddwyd cyfraniad hael o £1,000 i Ymddiriedolaeth Elusennol Rygbi Cymru a £250 i Gôr Meibion Dinbych.
Ar ran y Clwb hoffem ddiolch i'r holl wirfoddolwyr, busnesau lleol, rhoddwyr, chwaraewyr CRD, chwaraewyr gwadd a gwylwyr am sicrhau bod y diwrnod yn llwyddiant mawr.

*Lluniau o'r diwrnod ar y dudalen gefn*

### Twrnament Pêl Rwyd 'Denbigedig'

Ar brynhawn Sul, 11eg o Ragfyr cynhelir twrnament pêl-rwyd 'Denbigedig' yng Nghanolfan Hamdden Dinbych.
Mae hyn yn addo i fod yn ddigwyddiad unigryw, a fydd yn gweld clybiau chwaraeon gwahanol Dinbych yn dod at ei gilydd i chwarae mewn twrnament pêl-rwyd gystadleuol.
Oherwydd yr argyfwng costau byw, bydd eleni'n Nadolig anodd i nifer o drigolion Dinbych felly, bydd yr holl elw sy'n cael ei godi yn cael ei roi i Fanc Bwyd Dyffryn Clwyd.
Pob lwc i'r canlynol -
- Clwb Rygbi Dinbych
- Clwb Pêl droed 'Denbigh Town'
- Clwb Pêl Rwyd Dinbych
- Clwb Hoci Dinbych
- Clwb Criced Dinbych

*Beth Jones*



TE YN Y GRUG
Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576

gwasg.com
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333



Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900
Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB McHale Massey Ferguson Fendt Pottinger

## Atebion TACHWEDD 2022

**Ar Draws :**
1. Comisiynu
6. Betws
9. Strwythuro
10. Tranc
11. Garbo
12. Amrantiad
14. Gwendid
17. Almanac
20. Afresymol
22. Islaw
24. Brafo
25. Syfrdanol
26. Manic
27. Dargludydd

**I Lawr :**
1. Caseg eira
2. Morwr
3. Swyddogion
4. Y bugail
5. Unochrog
6. Baton
7. Trawiadol
8. Soced
13. Camarwain
15. Eithriadol
16. Digywilydd
18. Camosod
19. Aflafar
20. Albwm
21. Sionc
23. Luned

## CROESAIR RHAGFYR 2022




**Ar Draws :**
8. Dull o baratoi bwyd mewn tywydd braf
9. Hyblyg 10. Cwmni recordiau Cymreig
11. Arswydus o oer
12. Grŵp pop/roc o'r 70au
13. Nodedig
16. Cyfansoddwr o'r Almaen
18. Prydydd
20. Ci rasio
21. Nid rhad
22. Un sy'n trwsio esgidiau
23. Gellir ei ddirnad â'r llygad
26. Un sy'n siarad ar ei lw mewn llys
28. Dod yn agosach
30. …. Williams, cogydd
31. Defnyddiol i arllwys hylif i botel
32. Eitem atodol ar wisg

**I Lawr :**
1. Mae ambell 18 ad yn ennill un o'r rhain
2. Enw bachgen
3. Arwerthiant
4. Ymryson ateb cwestiynau
5. Cwblhau tasg
6. Ffordd o ennill 4 il ydi gwybod yr ....
7. Swyno
14. Gwantan
15. Cylchgrawn wythnosol
17. Troed neu waelod mynydd
19. Goruchwyliwr
20. Prynu a gwerthu
24. Cymdeithas sy'n helpu'r anghenus
25. Un sy'n dilyn
27. Cyflaith
29. Nid Sion
30. .... môr, ysbwriel ar draeth

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482


J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

# Lawnsio nofel Elen Wyn




*Dewi Llwyd ac Elen*

Ar yr 11eg o Dachwedd, roedd Clwb Rygbi Dinbych dan ei sang, wrth i nofel newydd Elen Wyn, Bwrw Dail, gael ei lawnsio.
Cafwyd noson hyfryd, gan ddechrau gydag Ynyr Llwyd yn canu cân neu ddwy, yna ymlaen i glywed Dewi Llwyd yn holi cwestiynau i Elen am y nofel, y broses o ysgrifennu ac o le y caiff ei hysbrydoliaeth, ymysg pethau eraill, cyn i Ynyr orffen y noson gyda chân Nadoligaidd! Cafwyd hefyd fideo ei chwarae o ddarnau o'r nofel yn cael eu darllen allan gan Tomos Wyn a Catrin Jones.
Wedi i Ynyr orffen canu, roedd cyfle i sgwrsio wrth fwynhau mins pei dros baned neu beint, a dwi'n siŵr bod gan Elen boen yn ei llaw erbyn diwedd y noson wedi iddi roi llofnod ym mron bob llyfr a brynwyd yn ystod y noson!
Roedd y nofel yn Nofel y Mis gan Gyngor Llyfrau Cymru fis Tachwedd ac wrth i'r Bigwn fynd i'r wasg roedd modd darllen cyfweliad gyda Elen ar eu gwefan www.llyfrau.cymru, a gwylio'r clip gafodd ei chwarae ar noson y lansiad. Os bydd wedi mynd erbyn i chi ddarllen hwn efallai bydd y clip i'w weld ar YouTube ar https://youtu.be/ey-lVIDJFnY a mae'r cyfweliad wedi ei gynnwys isod gyda chaniatâd Elen.
Dwi'n siŵr bod digon o gopïau ar gael yn Siop Clwyd – anrheg Nadolig gwerth chweil!

**Holi Elen Wyn**

**Dwed 'chydig am dy lyfr diweddaraf Bwrw Dail.**
Cyfrol fer sy'n bwrw golwg ar gymhlethdodau cariad, galar a Chymreictod a hynny drwy brofiadau cwpwl priod sy'n gwerthu ty oes. Mae'r llyfr hefyd yn ceisio cyfleu grym natur yng ngwyneb bygythiadau gan bobol.

**Beth ydi ystyr y teitl – Bwrw Dail?**
Mae'r nofel yma yn symud rhwng realiti a'r byd rhithiol, fel nad ydi'r darllenydd byth yn hollol siwr be' sy'n digwydd 'go iawn'. Mae gan goed ran allweddol yn natblygiad y plot, ac yng nghanol y cyfnodau tywylla mae hi'n bwrw cawodydd o ddail. Mae'r coed yn rhybuddio, ac yn cynnig adferiad.

**Beth wnaeth dy ysbrydoli i sgwennu'r nofel yma?**
Ystyr y gair adref!
Mae o'n bwnc sy'n peri cyfyng-gyngor i mi fel merch o Wynedd; ond sydd bellach yn byw yn Nyffryn Clwyd. Dwi byth yn gwybod sut i ateb y cwestiwn "O le ti'n dod?" Dwi wedi syrthio mewn cariad efo Dinbych ond hefyd yn hiraethu am Gaernarfon. Felly, lle ydi 'adra erbyn hyn?
Mae mudo hefyd yn bwnc sy'n cael ei drafod yn y byd newyddiadurol yn aml iawn, a dwi'n teimlo ein bod i gyd yn fudwyr o fath. Y themâu yma hefyd yn amserol, o 'styried fod y cyfnodau clo wedi gorfodi pawb i aros 'adref'. Ydi syniad y darllenwyr o le neu beth ydi 'adra' wedi newid? I mi, teimlad ydi o, nid brics a chyrtens!

**Beth wyt ti'n ei fwynhau fwyaf am sgwennu?**
Dihangfa i fyd hollol wahanol i mywyd bob dydd, a chyfle i greu cymeriadau newydd a straeon gwbl ddychmygol.

**Beth yw dy hoff lyfr neu gyfrol?**
Fel plentyn - Cyfrinach Betsan Morgan, Gwenno Hywyn
Fel oedolyn - The Silence of the Lambs, Thomas Harris.

**Mae gen ti fywyd prysur iawn rhwng dy swydd a magu teulu, sut wyt ti'n llwyddo i jyglo bob dim?**
Tydw i'm yn honni 'mod i'n brysurach na unrhyw un arall, mae gan bawb eu prysurdeb dyddiau yma! Ond, mi fydda i yn teimlo'n rhwystredig ar adegau nad oes gen i fwy o amser i



*Ynyr Llwyd*

ysgrifennu yn greadigol wrth i fywyd teuluol a gwaith nghadw i'n brysur.
Ond, dwi wedi dod i sylweddoli nad oes rhaid cael 'amser ysgrifennu pwrpasol' bob tro. Mae 'na fodd myfyrio yn greadigol tra'n gwneud gweithgareddau ailadroddus dyddiol. Yn aml iawn, mi fyddai'n breuddwydio wrth olchi llestri neu hwfro. Meddwl am gymeriadau newydd wrth deithio'n y car. 'Sgwennu syniadau yn fy mhen wrth fynd a'r ci am dro.
Oni'n arfer teimlo'n drist nad o'n i'n medru treulio oriau o flaen y cyfrifiadur yn teipio, ond rwan dwi'n trio edrych y sefyllfa drwy lygaid gwahanol. Mae bwyd llawn dop yn gallu bod yn fantais i awdur, achos mae dyletswyddau gwaith a theulu yn aml iawn yn fy sybrydoli i feddwl am syniadau creadigol.

**Pa dri gair sy'n dy ddisgrifio orau?**
Eiriolwr. Hwyr. Mwythlyd.

**A oes gen ti lyfr arall ar gweill?**
Nagoes. Dwi'n cael pyliau o fod isio 'sgwennu drwy'r amser, a chyfnodau wedyn o fethu meddwl am sgwennu paragraff hyd yn oed!

**O brofiad, beth fyddai dy gyngor di ar gyfer rhywun sydd â'r awch i sgwennu ac yn ystyried gyrfa fel awdur?**
Ysgrifennwch syniadau yn eich meddwl cyn 'sgwennu ar bapur.
*Mwy o luniau o'r noson ar dudalen 31*

**Siop Clwyd**
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

# O'r Llyfrgell

**Bore Coffi Wcrainaidd**

Cynhaliwyd bore coffi arbennig ar 4ydd o Hydref yn Llyfrgell Dinbych i hyrwyddo cynnig ein llyfrgelloedd ar gyfer cefnogi pobl o'r Wcráin. Cawsom gymorth i gynnal y digwyddiad gan wirfoddolwr llyfrgell o'r Wcráin, bu'n gweini crempogau Wcrainaidd ar gyfer y bore coffi. Cafodd cyfeillion o'r Wcráin a gwesteiwyr gyfle i gymdeithasu, sgwrsio a gweld y llyfrau sydd ar gael yn Wcraineg yn y llyfrgell.

**Dechrau Da**

Dyma drefn y sesiynau i'r babis a'r plant lleiaf ar fore Mercher yn llyfrgell Dinbych
9.30 y.b. sesiwn oedolyn a phlentyn dan dair oed
11.30 y.b. sesiwn oedolyn a phlentyn dan dair oed
1.00 y.p. sesiwn i fabis dan un oed
Wrth i'r niferoedd gynyddu yn ein sesiynau Dechrau Da, rydym wedi penderfynu newid i system archebu ar-lein a fydd yn mynd yn fyw ar gyfer pob sesiwn Dechrau Da ar ôl hanner tymor. Rydym yn gobeithio y bydd yn gwneud archebu yn haws ac yn fwy cyfleus i rieni. Bydd y system yn syml iawn i'w defnyddio a bydd cymorth ar gael os oes angen. Ffoniwch y Llyfrgell am fwy o wybodaeth 01745 816313 neu dilynwch Dechrau Da ar eu tudalen facebook. https://www.facebook.com/people/Dechrau-Da-Sir-Ddinbych-Denbighshire-Bookstart/100083154347718/




**Clwb Darllen Sgwrs a Sangria**

Yn ein cyfarfod fis Tachwedd cawsom gyfle i drafod dau lyfr sef Dathlu gan Rhian Cadwaladr a Dan Gamsyniad gan John Alwyn Griffiths. Cawsom sgwrs a thrafodaeth ddifyr am y llyfrau gyda nofel Rhian Cadwaladr yn cael y marc uchaf o 9 allan o 10 a phawb wedi mwynhau hanes y pedair ffrind sy'n dathlu eu penblwyddi yn 60 oed ag yn mentro i Efrog Newydd am dipyn o hwyl a sbri. Dyma rai o sylwadau gan y criw:
"nofel amrywiol, hwyliog ag yn hawdd iawn ei darllen. Mae Rhian Cadwaladr yn gampus am ysgrifennu nofel ysgafn a neges i bawb o'r nofel oedd 'byth rhy hen a byth rhy hwyr'. Byddwn yn cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Ionawr 10fed am 7.00 y.h. yn Llyfrgell Dinbych. Y ddau lyfr fyddwn yn drafod fydd 'Bwrw Dail' gan Elen Wyn ag 'Adar Mud' gan Sian Rees. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb.

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.




*Carfan Tîm Cyntaf Tref Dinbych - Tymor 2022-2023 Top [chwith i dde] Sion Jones, Sean James (nawr yn Llandyrnog), Keiron Roberts, Billy Holmes, Aaron Jones, Chris Griffiths, Owen Cordiner, Dan Clarke, Dan Parry-Jones, Ben Lockley. Gwaelod [ chwith i dde ] Harry Lockley, Liam Simon, Jake Walker, Brett Jones (Hyfforddwr), Kristian Pierce ( Hyfforddwr) Dewi Llion Jones (Rheolwr), Matty Jones (Hyfforddwr), Paul Fleming (Capten),Nathan Brown , Sam Haddon*



Stand orlawn ym Mharc Canolog yn ystod gêm Cymru Dan 16 yn erbyn Denmarc



*Chwaraewr canol cae Cymru dan 16 Tjay Parfitt ( Dinas Caerdydd) yn chwarae yn erbyn Sweden Dan 16 o flaen y brif stand ym Mharc Canolog.*




















**Gêm Goffa Clwb Rygbi Dinbych 27/09/22**











